



Cam-drin domestig: y gwaith a wna'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol

Arolwg gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Medi 2018

Cydnabyddiaethau:

Arweiniwyd yr arolwg hwn gan Arolygydd EM Vivienne Raine, gyda chymorth tîm o arolygwyr, yn ogystal â staff o'n timau ymchwil a gweithrediadau. Pennaeth Arolygiadau Thematis a Chyd-destun, Helen Davies oedd yn gyfrifol am yr arolygiad hwn. Hoffem ddiolch i bawb a fu'n helpu i gynllunio a chymryd rhan yn yr arolwg; heb eu cymorth a'u cydweithrediad hwy, ni fyddai'r arolwg wedi bod yn bosibl.

© Hawlfraint y Goron 2018

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch e-bost i psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle'r ydym wedi pennu unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y dalwyr hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho o:

www.justiceinspectors.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Llawr 1af y Ganolfan Cyfiawnder Sifil

1 Bridge Street West

Manceinion

M3 3FX

Rhagair

Amcangyfrifir bod dwy filiwn o bobl wedi dioddef cam-drin domestig y llynedd. Mae cyfran dda o bobl sy'n derbyn y gwasanaethau prawf yn bobl sy'n cyflawni troseddau cam-drin domestig, ac mae cam-drin domestig yn cyrif am gyfran fawr o waith y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRCs). Yn yr arolwg hwn byddwn yn asesu pa mor dda yw gwaith y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol o ran lleihau cam-drin domestig a diogelu dioddefwyr. Yn gyffredinol, gwelsom nad yw'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn ddigon effeithiol o bell fordd yn y maes hanfodol hwn o waith, ac eto gallai gwaith da yn y fan yma wneud cymaint o wahaniaeth i deuluoedd ac unigolion perthnasol, ac i'r gymdeithas gyfan.

Do, daethom o hyd i bocedi o arferion da, fel yr ydym wedi dod i'w ddisgwyl, a gwelsom esiamplau o waith da o ran partneriaeth ddiogelu'r cyhoedd hefyd. Ond ar y cyfan, roedd diffyg ymwybyddiaeth ac arbenigedd cymwysedig i'w weld yn y gwaith. Nid yw'n or-ddweud pan ddywedwn fod llawer o unigolion yn drifftio drwy eu cyfnod goruchwyllo heb gael eu herio neu eu cefnogi i newid eu hoffter am gam-drin domestig, ac nid yw hynny'n dderbyniol.

Mae'r rheiny sy'n cael eu gadael heb eu herio ac heb eu helpu'n fygythiad arbennig i eraill, yn arbennig y rheiny sy'n agos atynt. Yn llawer rhy aml, roeddem yn ansicr pa mor ddiogel oedd y dioddefwyr a'r plant, yn enwedig pan oedd ymarferwyr heb weithredu ar wybodaeth newydd oedd yn dangos y gallent fod mewn perygl. Yn aml iawn roedd ymarferwyr yn amcangyfrif yn rhy isel faint o niwed oedd yn wynebu dioddefwr a phlant. Roedd rhai arferion yn achosi pryder difrifol i ni.

Yn yr achosion y buom yn edrych arnynt, gwelsom mai ychydig iawn o waith ystyrion oedd wedi cael ei gwblhau yn y ddalfa. Yn y gymuned, nid oedd y bobl oedd yn cyflawni'r cam-drin domestig yn dod yn eu blaenau'n ddigonol, ac ychydig iawn o waith a wnaed gan lawer ohonynt i'w helpu i wella eu perthnasoedd a'u hymddygiad. Er bod amrywiaeth o ymyriadau'n cael eu cynnig ar gyfer achosion o gam-drin domestig, nid wyf yn teimlo'n sicr bod y rhain i gyd wedi'u seilio ar dystiolaeth, eu gwerthuso na'u darparu'n effeithiol. Nid oedd digon o unigolion naill ai'n cychwyn neu'n cwblhau'r rhaglen Building Better Relationships, yr unig raglen cam-drin domestig achrededig y gall y llys ei orfodi yn rhan o ddedfryd gymunedol.

Roedd gan lawer o ymarferwyr lwythi gwaith na allent ymdopi â nhw. Roedd staff amhrofiadol yn rheoli materion cymhleth heb fawr ddim o hyfforddiant neu oruchwyliaeth rheoli. Roedd rhai'n rhy brysur i wneud gwaith trwyadl, tra bo eraill heb yr wybodaeth sydd ei hangen i wneud gwaith da. Roedd rhai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi cyflwyno strwythurau, polisiau ac offer rheoli achosion newydd ond, yn gyffredinol, dylai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol fod yn cymryd agwedd fwy strategol a phenderfynol. Yn fy marn i, dylent fod yn sicrhau bod ymarferwyr yn gwybod beth yw'r sail dystiolaeth ar hyn o bryd a bod ganddynt y sgiliau i oruchwyllo camdrinwyr domestig yn dda bob tro. Nid yw hyn yn digwydd: nid oes digon o ffocws ar gam-drin domestig.

Nid oes digon o gymhelliannau a rhwymedigaethau cytundebol clir a phenodol i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol reoli cam-drin domestig yn weithredol. Mae cyfle i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ystyried hyn, pan fo'n aildrefnu contractau.

Mae ein hargymhellion wedi'u canolbwyntio ar yr hyn a ystyriwn yn flaenoriaethau mawr. Mae digon yn yr adroddiad hwn i helpu Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i bennu beth sydd angen ei wneud a lle mae pethau'n gweithio'n dda. Rwy'n eu hannog i adeiladu ar y pocedi o arferion da a benwyd yma ac i roi'r flaenoriaeth a'r sylw y mae'n ei haeddu i gam-drin domestig.

Y Fonesig Glenys Stacey

Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi

Medi 2018

Cynnwys

	Rhagair	3
	Ffeithiau allweddol	5
	Cyd-destun cam-drin domestig	6
	Crynodeb Gweithredu	
	Argymhellion	10
1	Cyflwyniad	11
	1.1 Beth yw'r rheswm am y thema hon?	11
	1.2 Y Cefndir	11
	1.3 Nodau ac amcanion	14
	1.4 Amlinelliad o'r adroddiad	15
2	Polisi, strategaeth ac arweinyddiaeth	16
	2.1 Arweinyddiaeth genedlaethol	19
	2.2 Arweinyddiaeth Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol	21
	2.3 Casgliadau a goblygiadau	21
3	Gweithio i leihau achosion o aildroseddu	23
	3.1 Yr hyn a ganfuwyd gennym	23
	3.2 Casgliadau a goblygiadau	27
4	Diogelu dioddefwyr a phlant	29
	4.1 Yr hyn a ganfuwyd gennym	23
	4.2 Casgliadau a goblygiadau	33
5	Gweithio mewn partneriaeth	34
	5.1 Yr hyn a ganfuwyd gennym	34
	5.2 Casgliadau a goblygiadau	37
	Cyfeiriadau	38
	Atodiad 1: Rhestr termau	40
	Atodiad 2: Methodoleg	43

Ffeithiau allweddol

264,649	Y nifer o droseddwyr sy'n atebol i oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf ledled Cymru a Lloegr ¹
1.1 miliwn	Nifer y digwyddiadau a'r troseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a gofnodwyd gan yr heddlu ledled Cymru a Lloegr yn y flwyddyn yn gorffen Mawrth 2017 ²
1.9 miliwn	Brasamcan o'r nifer o bobl 16 - 59 oed ledled Cymru a Lloegr a ddiodefodd gam-drin domestig yn y flwyddyn yn gorffen Mawrth 2017. Roedd 1.2 miliwn yn fenywod ²
599,775	Troseddau yn ymwneud â cham-drin domestig a gofnodwyd gan yr heddlu yn y flwyddyn hyd Fawrth 2018, sef cynnydd o 23% ers y flwyddyn flaenorol ³
4,452	Nifer y bobl a gychwynnodd y rhaglen Building Better Relationships yn 2016/2017 ⁴
2,041	Nifer y bobl a gwblhaodd y rhaglen Building Better Relationships yn 2016/2017 ⁴
7%	Gostyngiad yn y nifer o bobl a gychwynnodd y rhaglen cam-drin domestig achrededig yn y gymuned o 2015/2016 hyd 2016/2017 ⁴
12%	Gostyngiad yn y nifer o bobl a gwblhaodd y rhaglen trais domestig achrededig yn y gymuned o 2015/2016 hyd 2016/2017 ⁴

¹ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Ystadegau Llwyth Achos Rheoli Troseddwyr fel oeddent ar 31 Rhagfyr 2017, <https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-october-to-december-2017>

² Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr: y flwyddyn yn gorffen Mawrth 2017, <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/domesticabuseinenglandandwales/yearendingmarch2017>

³ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Troseddu yng Nghymru a Lloegr: y flwyddyn yn gorffen fis Mawrth 2018, <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingmarch2018>

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/june2017/pdf>

⁴ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Crynhoad y Gwasanaeth Cenedlaethol i Reoli Troseddwyr: 2016 to 2017, <https://www.gov.uk/government/statistics/annual-national-offender-management-service-digest-2016-to-2017>

Cyd-destun y gwaith prawf mewn cam-drin domestig

Beth yw cam-drin domestig?

Cam-drin domestig yw⁵ unrhyw achos neu batrwm o achosion o ymddygiad bygythiol, rheoli, gorfodi, trais neu gamdriniaeth rhwng y rheiny sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid agos neu'n aelod o'r teulu, beth bynnag fo'u rhyw neu rywioldeb. Gall y gamdriniaeth gwmpasu niwed seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol a/neu emosiynol.

Cam-drin domestig yw'r cyd-destun y mae trosedd yn digwydd ynddo yn hytrach na throredd. Nid oes un drosedd unigol o gam-drin domestig. Yn hytrach, mae'r ystod o droseddau'n cynnwys ymddygiadau a arddangoswyd yn rhan o'r patrwm o gam-drin domestig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- trais corfforol
- niwed seicolegol neu emosiynol
- trais rhywiol
- trais 'ar sail anrhydedd' (er enghraifft priodas dan orfod)⁶
- aflonyddu⁷
- stelcio⁸
- trais gangiau
- rhannu neu ddsbarthu fideos neu ffotograffau preifat personol o rywun arall heb eu caniatâd (a elwir yn 'bornograffi dial')⁹
- ymddygiad gorfodi a rheoli¹⁰.

Rôl y gwasanaethau prawf

Mae rhaglen *Gweddnewid Adsefydliad* y llywodraeth wedi newid darpariaeth y gwasanaethau prawf yng Nghymru a Lloegr. Ers mis Mehefin 2014, maent wedi cael eu darparu gan ddau sector gwahanol: Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) cyhoeddus a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRCs), sy'n sefydliadau annibynnol, sy'n eiddo i gwmnïau preifat, ar gcontract ac a ddelir yn atebol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ).

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn cynghori llysoedd ynglŷn â dedfrydu'r holl droseddwyr, ac yn rheoli'r rheiny sy'n cyflwyno risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol neu sy'n cael eu rheoli drwy Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA). Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gyfrifol am ddyranu achosion priodol i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol ar ôl dedfrydu. Mae hawl gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol i herio dyraniad a dylent hefyd symud

⁵ Y Swyddfa Gartref (2013) Trais a cham-drin domestig: diffiniad newydd: www.gov.uk/guidance/domestic-violence-and-abuse#domestic-violence-and-abuse-new-definition.

⁶ Wedi'i gynnwys o dan *Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014*: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/12/contents/enacted>.

⁷ Darparwyd diogelwch o dan *Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997*; gellir diogelu dioddefwyr drwy orchmynon atal a pheidio aflonyddu.

⁸ Cafodd *Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997* ei diwygio gan *Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012* i gynnwys stelcio.

⁹ Wedi'i gynnwys o dan adran 33 y *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015*. Yn y flwyddyn yn gorffen ym mis Mawrth 2017, roedd 465 o euogfarnau am y drosedd hon, ac roedd 84% ohonynt yn ymwneud â cham-drin domestig.

¹⁰ Wedi'i gynnwys fel trosedd yn *Neddf Troseddau Difrifol 2015* (adran 76).

achosion ymlaen i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn ystod y ddedfryd os oes ganddynt bryderon y bydd y risg o niwed difrifol yn cynyddu mewn achos y maent yn ei oruchwylio.

Mae Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn rheoli achosion a aseswyd (ar amser y ddedfryd) fel achosion gyda pherygl isel neu ganolig i bobl eraill, ta waeth pa mor gymhleth fo'r rhain. Bydd y mwyafrif o gyflawnwyr cam-drin domestig sydd wedi cael eu heuogfarnu o droseddau megis gorchymyn cyhoeddus neu niwed troseddol, a nifer sydd yn y carchar am ymosodiad, wedi cael eu hasesu fel pobl sy'n peri risg isel neu ganolig o niwed. Felly, byddent yn cael eu rheoli gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol ac yn cyfrif am gyfran sylweddol o'u busnes. Gall troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus a niwed troseddol yn y cartref, er enghraifft, guddio'r cyd-destun ehangach o gam-drin domestig.

Mae cylch gwaith Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn cynnwys darparu ymyriadau a gwasanaethau (heblaw am raglenni troseddwyr rhyw) i holl ddefnyddwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol er mwyn lleihau aildroseddu. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau i helpu gyda llety, camddefnyddio sylweddau ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol hefyd yn darparu rhaglenni y mae'r llysoedd yn eu gorfodi fel gofynion y ddedfryd. Un o'r rhain yw Building Better Relationships (BBR), yr unig raglen a achredir yn genedlaethol am gam-drin domestig i'w defnyddio yn y gymuned. Dylai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol hefyd roi ystod o Ofynion Gweithredoedd Adsefydlu (RAR) ar waith a gallai'r llys eu gorfodi am leiafswm gofynnol o ddiwrnodau. Y Cwmni Adsefydlu Cymunedol sy'n penderfynu ar union natur y gwaith sydd i gael ei ddarparu. Mae nifer wedi datblygu ymyriadau Gofynion Gweithredoedd Adsefydlu byrion i ymdrin â cham-drin domestig.

Gall y gwasanaethau prawf, a dylai'r gwasanaethau prawf chwarae rhan bwysig mewn lleihau cam-drin domestig a diogelu dioddefwyr¹¹ a phlant. Mae gwaith prawf effeithiol yn ddibynnol ar ansawdd y berthynas rhwng yr unigolyn a'r gweithiwr prawf. Mae'r berthynas waith rhwng y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol a rhwng pob gwasanaeth prawf a'r asiantaethau eraill hefyd yn bwysig. Ni ddylid disgwyl i'r rheiny sy'n gweithio gydag achosion o gam-drin domestig weithio ar eu pennau eu hunain. Yn aml iawn bydd angen cysylltiad gydag asiantaethau megis yr heddlu a gofal cymdeithasol plant er mwyn gweithio'n effeithiol i ddiogelu dioddefwyr.

Fel corff cenedlaethol, rhoddir arweiniad canolog i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar reoli cam-drin domestig. Er bod disgwyl i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol gydymffurfio â chyfarwyddiadau gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) a nodi'r canllawiau cenedlaethol, dylai pob un hefyd ddatblygu ei bolisiau a'i ganllawiau ei hun wedi'u teilwra i strwythurau gweithredu, modelau ac anghenion lleol.

¹¹ Rydym yn cydnabod y gall y bobl sydd wedi dioddef troseddau, gan gynnwys cam-drin domestig, eu gweld eu hunain fel naill 'ddioddefwr' neu 'oroeswr'. Yn aml iawn mae asiantaethau cyfiawnder troseddol yn defnyddio 'dioddefwr' am mai dyma'r term cyfreithiol. Rydym wedi mabwysiadu'r confensiwn yma yn ein hadroddiad i gynnwys pobl sy'n dioddef cam-drin domestig a phobl a allai ddioddef cam-drin domestig yn y dyfodol. Rydym yn parchu'r ffaith fod unigolion sydd wedi dioddef cam-drin domestig yn gallu perthyn i'r naill categori neu'r llall, neu'r ddau, ac y gallent ystyried bod y term 'goroeswr' yn adlewyrchu eu hamgylchiadau'n well.

Crynodeb gweithredol

Polisi, strategaeth ac arweinyddiaeth

Nid oes strategaeth gyffredinol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i reoli ansawdd arferion y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol mewn perthynas â cham-drin domestig. Mae targedau cytundebol wedi peri bod Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn blaenoriaethu dyddiadau cwblhau prosesau uwchlaw ansawdd da ac arferion diogel. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi wedi gweithio'n galed i ddarparu ymyriadau i'w defnyddio gyda phobl sy'n cyflawni troseddau cam-drin domestig, ac i gefnogi Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i ddarparu'r rhain, ond mae angen cymryd agwedd fwy strategol a chydlynol tuag at y gwaith hwn. Mae angen diweddarau canllawiau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.

Roedd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi datblygu strwythurau, modelau gweithredu ac offer rheoli achosion newydd oedd yn blaenoriaethu achosion o gam-drin domestig yn briodol. Fodd bynnag, ni chafodd yr offer yma eu hymwreiddio'n llawn na'u defnyddio'n effeithiol i wella arferion neu i helpu i ganfod angen lleol. Roedd rhai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn cefnogi eu dyheadau gydag arferion a chanllawiau defnyddiol. Fodd bynnag, nid oedd y polisiau a'r arweiniad yn trosi'n arferion effeithiol ac nid oedd unrhyw systemau yn eu lle i brofi eu bod wedi gwneud hynny.

Gwelsom nad oedd dull strategol ar gael yn genedlaethol ac ar lefel y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i sicrhau bod Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn darparu'r ystod, yr ansawdd a'r nifer gywir o ymyriadau cam-drin domestig i ateb yr anghenion a bennir a bod ymyriadau Gofynion Gweithredoedd Adsefydlu wedi eu seilio ar dystiolaeth ac yn cael eu darparu'n effeithiol.

Roedd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn darparu'r rhaglen BBR ac yn gweithio i wella mynediad pobl i'r rhaglen hon. Fodd bynnag, ni chafwyd digon o atgyfeiriadau iddi. Roedd llawer o unigolion wedi gorfod aros am gyfnodau etsynedig cyn ymuno â chwrs, ac hefyd roedd niferoedd rhy uchel o bobl heb gwblhau cwrs.

Roedd gan unigolion fynediad i Ofynion Gweithredoedd Adsefydlu cam-drin domestig ac ystod o ymyriadau eraill a luniwyd yn lleol. Mae'r rhain wedi'u creu'n bennaf gan ymarferwyr brwdfrydig, heb sail tystiolaeth gydnabyddedig. Roeddent yn cael eu darparu gan gymysgedd o hyrwyddwyr profiadol ond hefyd gan staff newydd oedd heb yr hyder a'r wybodaeth i ddarparu'r deunydd cwrs yn dda.

Yn gyffredinol, nid oedd yr ymarferwyr wedi'u grymuso i ddarparu gwasanaeth cam-drin domestig o ansawdd da. Roedd ganddynt lwythi gwaith rhy fawr i'w rheoli ac roedd ar lawer angen mwy o hyfforddiant a goruchwyliaeth. Roedd gan weithwyr prawf dibrofiad lwythi achosion llawn a chymhleth, oherwydd y pwyslais ar weithio o bell mewn rhai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, ni allent sicrhau cefnogaeth gan eu cydweithwyr. Mae prinder gwybodaeth, sgiliau ac amser sydd wedi'i ymroddi i reoli cam-drin domestig wedi arwain at ddiffygion sylweddol yn ansawdd y gwaith o reoli achosion.

Lleihau aildroseddu

Roedd llawer o'r asesiadau'n arwynebol. Nid oedd yr offer yr oedd staff yn eu defnyddio i gwblhau asesiadau bob amser yn eu helpu i ddadansoddi ac asesu eu hachosion yn drwyadl. Roedd hyn yn golygu nad oedd ganddynt y ddealltwriaeth angenrheidiol o gyd-destun y gamdriniaeth ddomestig a'r ffactorau sy'n gysylltiedig ag ymddygiadau yn yr achos. Roedd rhai cynlluniau'n ddefnyddiol ac yn cynnwys amcanion penodol i'r unigolyn mewn dilyniant priodol, ond nid oedd hyn yn arfer cyffredin.

Nid oeddent yn ystyried adolygiadau'n bwysig ac ni wnaed adolygiadau fel rhywbeth arferol ar ôl i unigolion gwblhau ymyriad neu yn dilyn newid amgylchiadau mewn achos.

Cafodd unigolion fynediad at ystod o wasanaethau ac ymyriadau. Fodd bynnag, nid oeddent yn cwblhau digon o waith wedi'i seilio ar dystiolaeth i leihau ymddygiadau cam-drin domestig ac i wella

perthnasoedd. Roedd rhai aelodau o staff yn brin o'r sgiliau i wneud y gwaith yr oeddent yn ei ddarparu. Mewn rhai achosion, roedd gweithwyr prawf yn rhoi'r flaenoriaeth briodol i gwblhau un ymyriad cyn i'r nesaf gael ei weithredu. Fodd bynnag, cafwyd oedi na ellir ei esgusodi mewn cychwyn rhaglenni BBR a Gofynion Gweithredoedd Adsefydlu.

Nid oedd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi cael digon o gysylltiad gyda llawer o'r unigolion o dan eu goruchwyliaeth, ac nid oeddynt wedi cymryd digon o gamau i wella ymgysylltiad a chydymffurfiad. Yn gyffredinol, roedd staff proffesiynol yn ymateb i anghenion unigolion, ac yn gweithio o amgylch eu rhwymedigaethau cyflogaeth a gofal plant. Fodd bynnag, nid oeddent bob amser yn sicrhau bod ganddynt y dystiolaeth i gefnogi'r ceisiadau yma ac, o ganlyniad i hynny, cafodd rhai troseddwy'r cam-drin domestig eu hesgusodi'n amhriodol rhag gwneud y rhaglen BBR.

Diogelu dioddefwyr a phlant

Roedd rhywfaint o waith y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i ddiogelu dioddefwyr (ac yn arbennig plant) yn destun pryder difrifol. Nid oedd llawer o gydymffurfiad rhwng y weledigaeth oedd gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol i ddioddefwyr ac ansawdd yr arferion.

Roedd llawer o weithwyr prawf heb ddeall yn llawn beth oedd effaith y cam-drin domestig ar deuluoedd neu pam fod ymagwedd integredig tuag at reoli risg o niwed yn berthnasol. Felly, roeddent yn canolbwyntio eu gwaith yn gyfan gwbl ar yr unigolyn. Nid oedd digon o ddyfnder i asesiadau a chynlluniau: nid oedd llais ac anghenion dioddefwyr, a gwybodaeth gan asiantaethau partner, wedi eu dadansoddi'n ddigonol na'u defnyddio i hysbysu gwaith yn ddigonol er mwyn lleihau y risg o niwed. Roedd gweithwyr prawf yn dibynnu'n ormodol ar benderfyniadau asiantaethau eraill, megis gofal cymdeithasol plant a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, ynghylch lefelau'r risg o niwed a diogelu, heb wirio eu dilysrwydd. Felly, nid oeddent bob amser yn gallu gwneud penderfyniadau effeithiol ynglŷn â sut i ddiogelu dioddefwyr a phlant. Yn aml iawn nid oeddent yn gweld bod monitro rheoliadau allanol, megis gorchmynion atal neu wneud ymweliadau cartref, yn rhan integral o'u gwaith.

Mae rôl orfodol y Gweithiwr Cyswllt Partner (PLW) i BBR yn werthfawr. Roedd Gweithwyr Cyswllt Partner yn chwarae rôl flaenllaw yn y gwaith o gefnogi dioddefwyr a phlant, ac roeddent yn mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol yn aml iawn i roi mesurau ar waith i'w diogelu nhw, Fodd bynnag, roedd ganddynt lwythi gwaith mawr oedd yn effeithio ar eu gallu i gyflawni eu cylch gwaith yn effeithiol. Roedd yr atgyfeiriadau at y Gweithwyr Cyswllt Partner yn cael eu gwneud yn hwyr yn aml iawn neu ddim o gwbl, ac yn aml iawn roeddent yn gweithio ar eu pennau eu hunain heb systemau i gefnogi eu gwaith neu i sicrhau safon eu gwaith.

Gweithio mewn partneriaeth

Roedd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn gweithio'n dda gyda phartneriaid ar lefel strategol. Roeddent yn chwarae rôl integral mewn Partneriaethau Diogelu'r Gymuned, ac roeddent yn aelodau gwerthfawr o Gynadleddau Aml-asiantaeth i Asesu Risgiau (MARAC) a threfniadau Rheoli Troseddwy'r Integredig (IOM). Roedd hyn wedi gwella darpariaeth yr ymyriadau ac, mewn rhai achosion, y llif gwybodaeth rhwng Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ac asiantaethau eraill.

Er bod esiamplau o waith partneriaeth egniol ar lefel ymarferol, roedd cyfathrebu gwael yn aml iawn rhwng Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'u partneriaid a rhy ychydig o gyd-asesu a chynllunio. Effeithiodd hyn ar y gwaith i ddiogelu dioddefwyr a phlant, gan gynnwys gwaith ar y cyd i fonitro mesurau diogelu megis gorchmynion atal. Roedd rhai asiantaethau'n integral i'r cynnydd y mae angen i unigolion ei wneud, ond roedd y diffyg cyfathrebu rhwng y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r asiantaethau hyn yn golygu nad oeddent bob amser yn gwybod a oedd unigolion yn mynd i wasanaethau megis canolfannau menywod a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

Nid oedd gweithwyr prawf bob amser yn dychwelyd achosion neu'n symud achosion yn eu blaenau, pan fo angen, i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

Argymhellion

Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder:

- yn rhan o adolygiad y systemau prawf, ystyried sut i gymell Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i ganolbwyntio ar ansawdd y gwaith gyda throsteddwy'r a dioddefwyr cam-drin domestig.

Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi:

- bennu a lledaenu'r wybodaeth am lwybr integredig effeithiol i weithio gyda cham-drin domestig sy'n ystyried yr ystod lawn o gyd-destunau cam-drin domestig a'r angen i ddiogelu dioddefwyr a phlant
- cyflwyno a hybu system ledled Cymru a Lloegr i werthuso a chyfreithloni ymyriadau cam-drin domestig a darparu sicrhad bod Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi eu seilio ar dystiolaeth.

Dylai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol sicrhau fod:

- gan swyddogion cyfrifol yr hyfforddiant a'r gefnogaeth gywir i adnabod a rheoli'r risg o niwed a achosir gan gyflawnwyr camdriniaeth domestig
- achosion cam-drin domestig wedi eu fflagio'n briodol ar eu systemau rheoli gwybodaeth i ddarparu darlun cenedlaethol cywir o achosion cam-drin domestig sy'n cael eu rheoli gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol
- defnyddwyr gwasanaeth yn cwblhau ymyriadau priodol wedi eu seilio ar dystiolaeth mewn ffordd amserol, a bod yr ymyriadau yma'n cael eu darparu'n effeithiol ac yn ddiogel
- dioddefwyr, yn cynnwys plant, yn cael eu diogelu a'u cefnogi'n ddigonol drwy gydol yr achos, ac y ceir ymateb priodol i'r holl wybodaeth newydd am y risg o niwed
- gan Weithwyr Cyswllt Partner yr amser a'r gefnogaeth i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

1. Cyflwyniad

1.1. Beth yw'r rheswm am y thema hon?

Cydnabyddir bod cam-drin domestig yn broblem fawr erbyn hyn yn y Deyrnas Unedig. Gall dioddefwyr a'u plant gael eu niweidio'n gorfforol ac yn seicolegol, ac mae gormod yn colli eu bywydau. Mae'r impetws i ymdrin â cham-drin domestig wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae hyn wedi cael effaith ar waith y gwasanaethau prawf.

Mae Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn rheoli cyfran fawr o achosion cam-drin domestig ac yn allweddol i sicrhau bod y rheiny y maent yn eu goruchwyllo a'r rheiny a reolir gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gallu cael gafael ar ymyriadau priodol o fewn cyfnod eu dedfryd, trwydded neu oruchwyliaeth ar ôl dedfrydu. Roedd cam-drin domestig yn elfen mewn bron i 50% o achosion a aseswyd yn ystod ein rhaglen ddiweddar, Arolygiad o Ansawdd ac Effaith ym maes Troseddu Oedolion¹². Roedd hyn yn tynnu sylw at y ffaith fod gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol waith sylweddol i'w wneud i wella'r ffordd y rheolir achosion o gam-drin domestig.

Cafwyd ychydig iawn o arolygiadau sy'n canolbwyntio'n benodol ar ansawdd gwaith y gwasanaethau prawf gyda cham-drin domestig. Roedd ein harolygiad diwethaf ar y pwnc yma (Arolygiaeth Prawf EM, 2004) yn tynnu sylw at yr angen i gryfhau strategaeth ac arferion ar lefel genedlaethol a lleol, ac yn argymhell bod y gwasanaethau prawf yn cymryd camau brys i wella eu cynlluniau rheoli risg o niwed. Roedd Arolygiadau Ardaloedd wedi'u Targedu ar y Cyd oedd yn edrych ar ymateb amlasiantaeth i ddiogelu plant sy'n byw gyda cham-drin domestig yn dangos nad yw gwasanaethau prawf bob amser yn cyfrannu'n effeithiol at brosesau diogelu plant; roedd oedi, ac weithiau oedi sylweddol, cyn cychwyn y rhaglen BBR; nid oedd staff yn cael eu grymuso i reoli achosion cam-drin domestig; ac nid oedd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn gwneud digon i ddiogelu dioddefwyr (Ofsted et al, 2017). Roedd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar *Weddnewid Adsefydliad* yn tynnu sylw at fylchau yng nghontractau'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol mewn perthynas â cham-drin domestig a'r gostyngiad yn y nifer o bobl a gychwynnodd raglenni achrededig (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2016).

Gwnaethom y penderfyniad i gynnal arolygiad thematig er mwyn edrych yn fanwl ar ba mor dda mae Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn gweithio gyda cham-drin domestig.

1.2. Y Cefndir

Cam-drin domestig – amlygrwydd

Mae'n anodd cyfrifo pa mor amlwg yw cam-drin domestig. Mae cam-drin domestig yn drosedd gudd nad yw pobl yn rhoi gwybod amdani'n aml iawn (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2017). Mae hyn wedi'i waethygu gan y ffaith nad oes un drosedd gam-drin unigol a'r ffaith fod diffygion mewn arferion cofnodi gan asiantaethau, yn cynnwys gwasanaethau prawf.

Yn 2017 cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddata sy'n tynnu sylw at nifer yr achosion o gam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr¹³. Roedd y dadansoddiad yn ymdrin â'r Arolwg Troseddau yng Nghymru a Lloegr, ffigurau troseddau wedi eu cofnodi gan yr heddlu a data gan Wasanaeth Erlyn y Goron. Mae hwn yn rhoi dadansoddiad trwyadl a manwl o nifer yr achosion o gam-drin domestig. Mae'r mesuriadau a'r gwahanol gyfnodau amser a ddefnyddir yn y cyhoeddiad yn golygu nad yw'n bosibl gwneud cymariaethau uniongyrchol ar draws y data.

¹² Gwnaethom 16 arolygiad yn ystod ein rhaglen Arolygiad Ansawdd ac Effaith ym maes Troseddu Oedolion, a redodd o 2016 hyd 2018.

¹³ Y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (2017) 'Domestic abuse in England and Wales: year ending March 2017', <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/domesticabuseinenglandandwales/yearendingmarch2017>.

Amcangyfrifir bod 1.2 miliwn (7.5%) o fenywod a 713,000 (4.3%) o ddynion yn dioddef cam-drin domestig yn ystod y cyfnod o 12 mis hyd fis Mawrth 2017 fel sydd wedi'i ddangos gan Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr. Mae'r heddlu wedi casglu data am ddiogwyddiadau a throseddau sy'n berthnasol i gam-drin domestig ers Ebrill 2015. Mae'r rhain yn cynnwys, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i, droseddau treisgar, niwed troseddol, troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus a throseddau rhywiol. Cafodd 599,775 o droseddau sy'n ymwneud â cham-drin domestig eu cofnodi yn y flwyddyn hyd fis Mawrth 2018. Mae hyn yn gynydd o 23% ar y 488,049 a gofnodwyd y flwyddyn gynt. Credir bod y cynnydd wedi'i yrru gan welliannau mewn cofnodi troseddau gan yr heddlu. Efallai hefyd y cafwyd gwelliannau yn y ffordd y pennir cam-drin domestig, ac mae'n bosibl bod mwy o ddiodefwyr wedi rhoi gwybod am y troseddau. Ymhellach, am fod y data yma erbyn hyn yn ystyried ymddygiad rheoli a gorfodi am fod trosedd newydd wedi'i chynnwys yn *Neddf Troseddau Difrifol 2015*, credir bod y cynyddiadau yma'n gysylltiedig â'r ffaith fod yr heddlu'n gwneud mwy o ddefnydd o'r gyfraith newydd¹⁴.

Mae Mynegai Dynladdiad y Swyddfa Gartref yn darparu'r wybodaeth a ganlyn am ddynladdiadau domestig:

- Roedd 454 o ddiodefwyr dynladdiad domestig rhwng Ebrill 2013 a Thachwedd 2016; roedd 70% o'r rhain yn fenywod.
- O'r 316 o ddiodefwyr benywaidd: lladdwyd 243 gan eu partner neu gyn-bartner, 34 eu gan eu tadau, wyth gan eu mamau a saith gan fab.
- O'r 135 o ddiodefwyr gwrywaidd, cafodd tua hanner eu lladd gan bartner neu gyn-bartner (32 o ddynion a ddrwgdybiwyd a 40 o fenywod)¹⁵.

Mae hefyd gynlluniau i wella gwasanaethau a threfniadau diogelu sy'n berthnasol i gam-drin domestig. Mae'r Bil Cam-drin a Thrais Ddomestig (oedd o dan ymgynghoriad pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn) yn cynnig cyflwyno Comisiynydd Cam-drin a Thrais Ddomestig yn Lloegr, a fydd yn monitro ymateb asiantaethau statudol ac yn dal y system gyfiawnder yn atebol am ba mor dda mae'n ymdrin â cham-drin domestig. Bydd y Comisiynydd yn darparu diffiniad cyfreithiol o gam-drin domestig ac yn sicrhau bod effaith cam-drin domestig ar blant wedi'i adlewyrchu yn nedfrydau'r llys.

Cyflwynodd Cymru'r *Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)* yn 2015. Mae hon yn rhoi cynghorydd cenedlaethol yn ei le i gynghori gweinidogion Llywodraeth Cymru ac i wella'r cydweithio rhwng cyrff cyhoeddus, trefniadau i atal cam-drin domestig ac amddiffyn a chefnogi diodefwyr, a llinell gymorth 24 awr i ddiodefwyr, a rôl cydlynwyr cam-drin domestig.

Diogelwch a chefnogaeth i ddiodefwyr

Mae nifer o sefydliadau a gydnabyddir yn genedlaethol sy'n cefnogi diodefwyr cam-drin domestig. Ymysg y rhain mae Ffederasiwn Cymorth i Fenywod Lloegr, Cymorth i Ferched Cymru, Refuge, Hawliau Menywod a SafeLives. Mae'r Llinell Gymorth i Ddynion a'r Fenter ManKind yn darparu cefnogaeth yn benodol i ddynion. Gall diodefwyr gael cyngor cyfreithiol yn rhad ac am ddim gan y Ganolfan Trais Ddomestig Genedlaethol. Mae cyfle i ddiodefwyr hefyd fanteisio ar Routes of

¹⁴ Y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (2017) 'Domestic abuse in England and Wales: year ending March 2017', <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/domesticabuseinenglandandwales/yearendingmarch2017>.

¹⁵ Roedd y data a ddadansoddwyd yn cynnwys dynladdiad y rheiny oedd yn 16 oed neu'n hŷn yng Nghymru a Lloegr. Mae wedi'i seilio ar ddyddiad cofnodi'r drosedd gan yr heddlu yn hytrach na dyddiad y drosedd, o fis Ebrill 2013 hyd fis Tachwedd 2016.

¹⁶ Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2017) 'Majority of women in prison have been victims of domestic abuse': <http://www.prisonreformtrust.org.uk/PressPolicy/News/vw/1/ItemID/494>.

Support, sef cronfa ddata ar-lein drwy Brydain gyfan sy'n rhoi gwybodaeth am ymyriadau therapiwtig, eiriolaeth a llety. Mae Respect yn cynnig cymorth i bobl broffesiynol, troseddwr a dioddefwyr, mae wedi cyhoeddi cyfres o safonau ar gyfer mesur effeithiolrwydd ymyriadau ac mae'n cynnig gwasanaeth achredu ar gyfer ymyriadau.

Mae llawer o fenywod sy'n troseddu mewn perthynas gamdriniol neu wedi bod mewn perthynas o'r fath. Mae pum deg saith y cant o ferched yn y carchar yn dweud eu bod wedi dioddef cam-drin domestig¹⁶. Mae agwedd ad hoc tuag at ddarparu canolfannau a chysiau i'w helpu i ddeall cam-drin domestig ac i wella eu hannibyniaeth, hyder a hunan-barch. Mae rhai gwasanaethau'n ymroddedig i fenywod, tra bo eraill, megis y Rhaglen Rhyddid, yn croesawu dynion hefyd.

Mae cynghorwyr trais domestig annibynnol (IDVA) yn gweithio gyda dioddefwyr sydd yn y perygl mwyaf o lofruddiaeth neu ddioddef niwed difrifol. Gall sefydliad neu unigolyn wneud atgyfeiriad i gynghorwr trais domestig annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau wedi eu cofnodi fel rhai a wnaed gan yr heddlu neu'r dioddefwyr eu hunain. Roedd gan ddwy ran o dair o'r rheiny sy'n defnyddio'r gwasanaethau IDVA blant yn byw gyda nhw (SafeLives, 2017)¹⁷.

Gelwir Cynadleddau Aml-asiantaeth i Asesu Risgiau (MARAC) i drafod yr achosion cam-drin domestig risg uchel (mae rhai gwasanaethau heddlu, er enghraifft Stoke-on-Trent, yn atgyfeirio achosion gyda risg canolig o niwed hefyd). Mae data a gasglwyd gan SafeLives yn dangos bod y gyfradd o atgyfeiriadau i MARAC ar gyfartaledd yn cynyddu (set ddata MARAC SafeLives¹⁸). Yn y flwyddyn yn gorffen ym mis Mawrth 2017, trafodwyd 83,136 o achosion – 36 i bob 10,000 o ddiodefwyr benywaidd sy'n oedolion. Dydy hyn ond ychydig yn is na'r disgwyliad cenedlaethol o 40 achos i bob 10,000 o ddiodefwyr benywaidd sy'n oedolion. Ond, mae'r gyfradd gyfan hon yn cuddio faint o amrywiaeth a geir ledled y Deyrnas Unedig. Yn Nyfed Powys, trafodwyd 65 o achosion ymhob 10,000, tra bo 5 ymhob 10,000 yn Swydd Gaerloyw. Gwnaed odduetu 2% o atgyfeiriadau MARAC gan y gwasanaethau prawf.

Yn 2010 gwnaethpwyd adolygiad o waith MARAC yn rhan o raglen y llywodraeth Call to End Violence Against Women and Girls (Llywodraeth EM, 2012). Roedd cyfweiliadau a wnaed gyda Grŵp Llywio MARAC Cenedlaethol yn dangos mai'r elfennau allweddol o effeithioldeb MARAC oedd rhannu gwybodaeth, cynrychiolaeth asiantaethau a rôl yr IDVA i gynrychioli'r diodefwyr, ymysg elfennau eraill. Roedd meysydd eraill o arferion effeithiol yn cynnwys cysylltiadau partneriaeth cryf (yn ogystal ag ymrwymiad partneriaeth), arweiniad cryf, cydlyniad da a hyfforddiant ac ymgartrefu. Daeth yr adolygiad i'r casgliad yma: er bod tystiolaeth am effeithiolrwydd MARAC yn edrych yn addawol, roedd angen gwerthusiad cadarnach i edrych ar ganlyniadau, ac yn benodol rôl MARAC mewn gwella diogelwch diodefwyr a lleihau erledigaeth (Steel, Blakeborough a Nicholas, 2010).

¹⁷ Mae SafeLives yn casgu data am atgyfeiriadau cynghorwyr trais domestig annibynnol. Pan wneir atgyfeiriad i Gynhadledd Aml-asiantaeth i Asesu Risgiau (MARAC), dylid gwneud atgyfeiriad at gynghorwr trais domestig annibynnol hefyd.

¹⁸ Mae data SafeLives am MARAC yn cael ei gyflwyno yng nghyhoeddiad y Swyddfa Ystagedau Gwladol ar gam-drin domestig (Y Swyddfa Ystagedau Gwladol, 2017).

Gall unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n ymwneud ag achos o gam-drin domestig wneud asesiadau risg o gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais wedi ei seilio ar anrhydedd (DASH). Mae'r rhain yn rhan bwysig o'r broses o wneud penderfyniadau atgyfeirio, er enghraifft i MARAC. Ychydig iawn o dystiolaeth sydd i'w chael eu bod yn cael eu cwblhau gan y gwasanaethau prawf.

Mae'r Cynllun Datgelu Trais Ddomestig (a elwir yn Ddeddf Clare), a gyflwynwyd yn 2014, yn rhoi cyfres o weithdrefnau i'r heddlu (gan ddefnyddio eu pwerau presennol) i roi gwybodaeth i un partner am droseddu treisgar blaenorol gan y llall.

Mae nifer o fesurau sy'n cael eu gorfodi gan y llys yn helpu i amddiffyn dioddefwyr rhag mwy o gamdriniaeth. Mae'r rhain yn cynnwys Gorchmynion Diogelu Trais Ddomestig, y gellir eu gorfodi ar unwaith ar ôl achos o gam-drin domestig lle nad oes digon o dystiolaeth i gyhuddo'r troseddwr. Maent yn gwahardd y troseddwr rhag cael cysylltiad â dioddefwr neu ddychwelyd i gartref y teulu am 28 diwrnod. Mae hyn yn rhoi amser i'r dioddefwr fyfyrion ar sut mae eisiau symud ymlaen. Yn ogystal, gall y llysoedd orfodi gorchmynion atal a gorchmynion peidio ag ymyrryd er mwyn diogelu dioddefwyr a'u plant rhag bygythiadau o drais, aflonyddu neu frawychiad neu orchymyn meddianaeth sy'n rheoli pwy all fyw mewn eiddo gyda'r dioddefwr.

1.3. Nodau ac amcanion

Gwnaed yr arolygiad hwn i asesu, yn fanwl, ansawdd y gwaith y mae Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn ei wneud yn y gymuned i leihau achosion o gam-drin domestig a diogelu dioddefwyr. Yn benodol, roeddem eisiau gwybod hyn:

1. Sut mae arweinwyr y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn cefnogi ac yn hybu darpariaeth gwasanaeth ymatebol, personol ac ansawdd uchel ar gyfer holl droseddwr a dioddefwr cam-drin domestig?
2. A yw staff o fewn y sefydliad wedi'u grymuso i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i holl droseddwr a dioddefwr cam-drin domestig?
3. A oes ystod gynhwysfawr o wasanaethau ac ymyriadau yn eu lle i wneud gwaith gydag achosion cam-drin domestig?
4. Pa mor dda yw cefnogaeth yr ymarferwyr i ymataliad rhag cam-drin domestig?
5. Sut mae dioddefwyr a'u plant yn cael eu cefnogi a'u diogelu?
6. A oes trefniadau gyda phartneriaid statudol, darparwyr ac asiantaethau eraill wedi eu sefydlu, eu cynnal a'u defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau o safon uchel?

Roedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar waith Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Roedd y gyfran o achosion cam-drin domestig yn ein rhaglen Arolygiad o Ansawdd ac Effaith ym maes Troseddu Oedolionyn debyg yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol. Gwnaethpwyd y penderfyniad i arolygu gwaith Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ar sail y ffaith fod y materion blaenllaw yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn golygu bod y sefydliadau hyn yn gofyn am arolygiad mwy uniongyrchol na'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Hefyd, mae cylch gwaith Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn cynnwys darparu ymyriadau arbenigol ar gyfer y ddau wasanaeth prawf. Rydym wedi cynnwys cyfeiriad at y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol lle mae gan ei waith y potensial i effeithio ar berfformiad Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

Mae'r adroddiad yma'n cyfeirio at rôl y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i gefnogi arferion effeithiol gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

1.4. Amlinelliad o'r adroddiad

Pennod	Cynnwys
1. Polisi, strategaeth ac arweinyddiaeth	<p>Cefnogi arferion effeithiol drwy wneud penderfyniadau strategol, systemau technoleg gwybodaeth, strwythurau a modelau gweithredu</p> <p>Grymuso ymarferwyr i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da i droseddwr a dioddefwyr cam-drin domestig</p> <p>Darparu ymyriadau amserol priodol</p>
2. Gweithio i leihau aildroeddu	Ansawdd yr arferion i leihau aildroeddu
3. Diogelu dioddefwyr a phlant	Ystyried dioddefwyr a phlant ar lefel strategol ac ymarferol
4. Gweithio mewn partneriaeth	Gwaith a wneir gydag asiantaethau eraill i ymdrin â cham-drin domestig

2. Polisi, strategaeth ac arweinyddiaeth

Yn y bennod hon, rydym yn adrodd am ymagwedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol i sicrhau bod yr ystod, ansawdd a maint cywir o ymyriadau cam-drin domestig ar gael. Rydym yn amlinellu ein canfyddiadau am fodelau gweithredu Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, faint wedi grymuso oedd staff Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i gyflawni eu rolau'n effeithiol, a sut roedd polisiau cam-drin domestig a systemau technoleg gwybodaeth yn cefnogi eu gwaith.

2.1 Arweinyddiaeth cenedlaethol

Ar lefel genedlaethol, nid oes rôl trosfwaol uwch i arferion a pholisiau cam-drin domestig. Mae arweinwyr cam-drin domestig ar gyfer yr amrywiol ffrydiau o waith, megis ymyriadau, y llysoedd a deddfwriaeth newydd. Mae'r arweinyddiaeth wedi'i ganolbwyntio ar y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, ac nid oes strategaeth ar sail anghenion i gydlynu'r ffrydiau niferus o waith cam-drin domestig mewn Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ac i sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu mewn ffordd sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf positif.

Nid oes gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol ddigon o gymhelliant i fynd ati'n weithredol i reoli'r risg o niwed i eraill ac i ystyried y ffordd orau o ddiogelu dioddefwyr a phlant. Nid yw eu goblygiadau cytundebol uniongyrchol yn rhoi digon o bwyslais ar yr angen i ddarparu gwasanaethau cam-drin domestig o safon uchel. Maent yn gwrthio Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i ganolbwyntio ar dasgau ymarferol, megis cwblhau cynllun, yn hytrach nag ar anghenion achosion unigol ac ar leihau aildroseddu sy'n ywmneud â cham-drin domestig.

Rhaglenni achrededig

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi'n darparu a monitro rhaglenni achrededig cyfiawnder troseddol ac yn sicrhau ansawdd eu darpariaeth.

Cyflwynwyd BBR i'r gwasanaethau prawf yn 2012¹⁹. Nod y rhaglen yw 'lleihau aildroseddu a hybu diogelwch plant a phartneriaeth yn awr ac yn y dyfodol' a 'chydweithio gydag asiantaethau eraill i reoli risgiau' (NOMS, 2015). BBR yw'r unig raglen achrededig mewn cam-drin domestig gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn y gymuned. Cafodd ei hachredu gan y Panel Cyngor ac Achredu Gwasanaethau Cywirol (CSAAP) ym mis Gorffennaf 2013 fel rhaglen effeithiol i droseddwyr gwrywaidd o gam-drin domestig o fewn perthynas agos heterorywiol.

Gellir defnyddio'r rhaglen BBR yn y ddalfa ac yn y gymuned. Mae'n amcannu i gynyddu dealltwriaeth troseddwr o'r rhesymau pam y mae'n cam-drin ei bartner, yn gwella ei sgiliau perthynas cadarnhaol mewn cymdeithas ac yn lleihau ei ffactorau risg. Mae wedi ei llunio o gyfres o fodiwlau a gellir ei rhedeg ar sail dreiglol. I ystyried a yw rhywun yn gymwys rhaid ystyried y sgôr asesu SARA²⁰ ac a oedd y sawl a gyflawnodd y gamdriniaeth mewn perthynas agos â'r dioddefwr ar adeg yr ymddygiad camdriniol.

¹⁹ O dan Gyfarwyddyd Prawf (PI) 01/2012.

²⁰ Mae Asesiad Risg o Ymosodiad Priodasol (SARA) yn offeryn a ddefnyddir i helpu i ragweld pa mor debygol yw cam-drin domestig. Dylai timau llys y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ei gwblhau mewn achosion lle mae cam-drin domestig yn nodwedd i hysbysu eu cynigion am ddedfrydau, ond gall Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ei ddefnyddio hefyd yn rhan o'u proses asesu.

Cymerodd BBR le'r Rhaglen Cam-drin Domestig Integredig, oedd yn canolbwyntio ar angen cyflawnwr y cam-drin i ddefnyddio grym a rheolaeth dros eu partner agos. Mae BBR yn cadw elfennau'r model pŵer a rheolaeth ac yn cydnabod dylanwad diwylliant patriarchaidd. Fodd bynnag, gyda'i sail ddamcaniaethol a dynnir o'r Model Ecolegol Nythog a'r Model Ymosodedd Cyffredinol, mae'n cymryd agwedd fwy holistig, gan osod yr ymosodedd yng nghyd-destun y ffactorau/ymatebion amgylcheddol, cymdeithasol a straen ym mywydau pobl. Rhaid i raglenni achrededig gael eu hadolygu gan CSAAP bob pum mlynedd. Bydd BBR yn cynnal ei adolygiad ac ailachreidiad ffurfiol cyntaf erbyn diwedd Mawrth 2019.

Mae'n anodd asesu effeitholrwydd ymyriadau i leihau cam-drin domestig. Cafwyd ystod o werthusiadau a rhaglenni ymyriadau cam-drin domestig, a phob un yn mesur gwahanol ganlyniadau. Er enghraifft, mae rhai wedi mesur newidiadau yn y lefel o aildroseddu gan y rheiny sydd wedi cwblhau'r rhaglenni (Bloomfield a Dixon, 2015), newidiadau yn y lefelau o drosedd yr adroddasant amdanynt eu hunain neu p'un a gafwyd unrhyw newidiadau yn y ddealltwriaeth am drosedd a chamdriniaeth gan droseddwr ar raglenni (Kelly a Westmarland, 2015). Mae gwerthusiadau eraill wedi archwilio'r athreuliad o raglenni (Jewell a Wormith, 2010), sut mae dioddefwyr a phlant wedi cael eu cefnogi (Skyner a Walters, 1999; Bullock et al, 2010) a'r gwahanol fathau o waith partneriaeth sy'n digwydd ar draws y rhaglenni (Steel, Blakeborough a Nicholas, 2010). Gyda'r gwahanol agweddau a gymerir o fewn rhaglenni cam-drin domestig a'r gwahanol werthusiadau a mesuriadau sy'n digwydd, nid yw'n bosibl gwneud cymariaethau clir ar draws rhaglenni. Ymhellach, fel y mae Bates et al (2017) yn ei drafod, mae gan werthusiadau feintiau sampl bychain hefyd, dim dilyniant tymor hir ac, yn aml, nid oes ganddynt grŵp rheoli i alluogi gwerthusiad cadarn o'r effaith y dylid ei sicrhau.

Mae Schucan-Bird et al (2016) yn trafod defnyddio ffynonellau data niferus i fesur achosion o ailadrodd trais; mae'r rhain yn cynnwys aileuogfarnu, aildroseddu ac atgwmpo. Maent yn trafod yr anawsterau gyda defnyddio'r mesuriadau hyn; er enghraifft; nid yw achosion o gam-drin domestig yn cael eu hadrodd ddigonol ac nid yw data am alw'r heddlu allan ond yn adlewyrchu cyfran o'r aildroseddu. I fesur atgwmpo, defnyddir adroddiadau'r dioddefwyr eu hunain fel arfer, ond lleisiwyd pryderon am duedd i hunan-ddethol, y gallu i alw i gof a'u delwedd o fewn cymdeithas. Yn olaf, dadleuir hefyd ynghylch yr amser a roddir i fesur yr effaith. Er enghraifft, mae rhai astudiaethau'n awgrymu bod angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r 'cyfnod mis mêl', h.y. efallai y gwelir canlyniadau positif yn y tymor byr ond efallai na fydd y rhain yn parhau.

Roedd adolygiad o adolygiadau gan Vigurs et al (2016) yn amlygu'r ffaith na allent ganfod effaith glir rhaglenni troseddwr cam-drin domestig ar gyfiawnder troseddol neu ganlyniadau yn ymwneud â dioddefwyr. Roedd gwahaniaethau mewn effaith yn dibynnu ar y mesurau a ddefnyddiwyd, gydag amrywiadau mewn canlyniadau pan gawsent eu mesur naill ai drwy adroddiadau swyddogol neu drwy adroddiadau dioddefwyr am atgwympiad. Teimlwyd bod mesurau a adroddwyd gan ddiodeffwr yn fwy dibynadwy o bosib oherwydd y ffaith nad yw camdriniaeth domestig yn cael ei hadrodd yn ddigonol. Fodd bynnag, nodwyd hefyd bod nifer y bobl a adawodd y rhaglenni'n gynnar yn uchel ac efallai bod gwahaniaethau mewn canlyniadau i wahanol grwpiau ymysg y dioddefwyr hynny a barhaodd gyda'r rhaglen o'i gymharu gyda'r rheiny a adawodd yn gynnar.

Mae'r cyfraddau pobl a gychwynnodd ac a gwblhaodd raglenni cam-drin domestig achrededig wedi amrywio'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, yn unol â'r rhaglenni achrededig eraill, mae eu defnydd wedi dirywio'n gyffredinol. Rhwng 2015/2016 a 2016/2017 cafwyd gostyngiad o 7% yn y niferoedd a gychwynnodd. Cafwyd mwy o ostynigad yn y niferoedd a gwblhaodd: 12% dros yr un cyfnod. Er nad yw'n bosibl mesur athreuliad absoliwt,

am nad oes cyferbyniad rhwng y data cychwyn a'r data cwblhau²¹, mae arwyddion clir i ddangos nad yw digon o droseddwy'r yn bodloni gofynion eu dedfryd neu'n cwblhau'r gwaith sy'n angenrheidiol i leihau aildroseddu.

Mae Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn derbyn taliad am ddarparu'r rhaglen BBR, a phennir cyfanswm hyn yn ôl y nifer o ddynion sy'n mynd i sesiwn ymgartrefu cyn y rhaglen²². Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi'n diffinio'r nifer a gwblhaodd mewn tair ffordd. Dyma nhw mewn geiriau syml:

- Cwblhad positif - mae'r unigolyn wedi cwblhau'r rhaglen gyfan ac mae cyfnod y gorchymyn cymunedol, y drwydded neu'r oruchwyliaeth ar ôl y ddedfryd wedi gorffen heb unrhyw gwblhad negyddol neu niwtral.
- Cwblhad niwtral - mae'r gorchymyn wedi'i ddi-ddymu, mae'r cyfnod carcharol wedi'i weithredu, mae amod y drwydded wedi'i ddileu, neu mae'r unigolyn wedi trosglwyddo o reolaeth y Cwmni Adsefydlu Cymunedol neu mae wedi marw.
- Cwblhad negyddol - mae cyfnod y gorchymyn, y drwydded neu'r oruchwyliaeth ar ôl dedfrydu (PSS) wedi dod i ben heb i gwblhad positif neu niwtral gael ei gofnodi.

Os oes gormod o gwblhad negyddol, bydd y Cwmni Adsefydlu Cymunedol yn denu cosb ariannol.

Mae'r nifer sy'n cwblhau yn lleihau, ac mae'r gostyngiad dilynol mewn taliadau i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol, wedi arwain at sefyllfa lle mae llai o gyrsiau ar gael ac mae'r ddarpariaeth yn llai hyblyg. Mae hefyd wedi achosi oedi pellach mewn dyddiadau cychwyn a gostyngiad pellach yn y cyfraddau cwblhau.

Er bod y canllawiau cenedlaethol yn cynghori ei bod hi'n briodol cwblhau gwaith ymddygiad troseddol cyffredinol gyda menywod sy'n gwneud troseddau cam-drin domestig yn erbyn eu partneriaid agos, roedd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi wedi ymateb yn gadarnhaol i adborth Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ac yn datblygu a chyflwyno ystod o ymyriadau i'w defnyddio mewn lleoliadau mwy amrywiol. Roedd y rhain yn cynnwys ymyriadau sy'n addas i'r rheiny gydag anabledau dysgu ac i berthnasoedd Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol. Gellir darparu ymyriad o'r fath o bell yn rhannol, gan ddefnyddio technoleg ddigidol, ac rydym yn croesawu'r datblygiad yma. Fodd bynnag, nid oes llwybr strategol ar gyfer gwaith y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i ddarparu ymyriadau. Er bod arweiniad cenedlaethol ar gael ar gyfer gweithio gyda cham-drin domestig ac i hwyluso'r rhaglen BBR, byddai'n elwa o gael ei ddiweddarar fel ei fod yn adlewyrchu tystiolaeth a therminoleg gyffredol.

Yn gyffredinol, roedd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r gefnogaeth a ddarperir gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi. Roeddent yn gwerthfawrogi ymateb cyflym a defnyddiol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i'w hymholiadau ynglŷn â darparu'r rhaglen BBR a'r sesiynau briffio yr oedd yn eu darparu, megis yr un a hyrwyddwyd yn ddiweddar ar stelcio ac aflonyddu.

²¹ Crynhoad y Gwasanaeth Cenedlaethol i Reoli Troseddwy'r: 2016–2017: 'programme start is counted as attendance at the first session of the programme and a programme completion is counted on attendance at the last session of the programme'. 'Gallai'r rhai sy'n cychwyn mewn un flwyddyn gwblhau mewn blwyddyn ddilynol, ac efallai bod pobl sy'n gorffen mewn un flwyddyn wedi dechrau mewn blwyddyn flaenorol.'

²² Addaswyd y diffiniad o 'wasanaethau a berfformiwyd' gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2017, gan arwain at newid yn y cyfrifiadau talu o flwyddyn gontract 3.

EsiampI o arfer da: cefnogi ymyriad effeithiol yng Nghymru

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi Cymru wedi cyflwyno Panel Ymyriadau Effeithiol, ac mae ei aelodau'n cynnwys rheolwyr ym maes carchardai a phrawf, seicolegwyr fforensic ac academyddion. Mae'r panel yn asesu'r canlynol ar gyfer pob ymyriad: yr angen a adnabuwyd, y targed troseddol, y dull darparu, y sail tystiolaeth, a'r canlyniadau a fwriadwyd a sut y byddent yn cael eu mesur. Gall Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru gyflwyno ei ymyriadau i'w hystyried a'u cadarnhau, gan helpu i wella hyder y Cwmni Adsefydlu Cymunedol a'i randdeiliaid yn nilysrwydd ac effeithiolrwydd ei ymyriadau.

2.2 Arweinyddiaeth Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol

Gwneud penderfyniadau strategol, systemau TG, strwythurau a modelau gweithredu

Roedd modelau gweithredu Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi cael effaith ar ansawdd gwaith cam-drin domestig. Roedd gan rai systemau canolog, drwy gyfrwng eu canolfannau gweinyddol, i aseinio achosion neu i wneud penderfyniadau am lefelau o gysylltiad gyda defnyddwyr gwasanaethau. Roedd eraill wedi cyflwyno offer cynllunio ac asesu newydd. Roedd gan yr offer yma'r potensial i wella'r ffordd yr oedd y Cwmni Adsefydlu Cymunedol yn rheoli troseddwyr mewn achosion o gam-drin domestig, er enghraifft drwy annog defnyddwyr gwasanaeth yn frwdfrydig i ymgysylltu â gwaith prawf a thrwy helpu i bennu ymyriadau priodol. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r strwythurau ac offer newydd wedi'u gweithredu'n llawn, ac roedd angen adolygu pa mor dda yr oedd y rheiny oedd ar waith yn cefnogi gwaith i ddiogelu dioddefwyr a phlant.

EsiampI o arfer da: annog arfer effeithiol yn Ne Ddwyrain Swydd Gaerhirfryn

Yn Ne Ddwyrain Swydd Gaerhirfryn, roedd uwch reolwyr yn deall pwysigrwydd adnabod y math o gam-drin domestig, ynghyd â'i gyd-destun, mewn achosion unigol er mwyn helpu i benderfynu ar y ffordd orau o leihau aildrosedd. Roeddent yn cefnogi gwaith ymchwil cydweithiwr am y dull 'teipoleg' yma ac, yn eu canllawiau am arferion cam-drin domestig, roeddent wedi cynnwys cyngor am y ffactorau i'w hystyried yn rhan o asesiad o'r ymddygiadau cam-drin domestig perthnasol. Roedd hyn o gymorth i staff prawf i gryfhau eu dealltwraeth o'r perthnasoedd a'r amgylchiadau amrywiol sy'n rhan o gam-drin domestig ac yn cynyddu eu gallu i ddarparu'r ymyriadau gorau ymhob achos.

Roedd ystod o grwpiau strategol mewnol oedd yn edrych, er enghraifft, ar ymyriadau, risg o niwed a'r rhyngwyneb gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Dywedodd uwch reolwyr wrthym fod y rhain, a'r gwaith yr oeddent yn ei wneud ar lefel strategol, wedi darparu digon o impetws i gefnogi arferion cam-drin domestig effeithiol. Fodd bynnag, ni allent gadarnhau fod strategaeth a pholisi'n cael eu troi'n arferion mewn ffordd effeithiol. Nid oedd ganddynt systemau i ddarparu sicrhad bod hyn yn digwydd, a gwelsom nad oedd cysylltiad rhwng y dyheadau a nodwyd gan yr uwch-reolwyr a gwaith yr ymarferwyr.

Nid oedd y penderfyniadau am ystadau Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn cefnogi cam-drin domestig effeithiol bob amser. Mewn un Cwmni Adsefydlu Cymunedol, cafwyd cyfarfodydd gydag unigolion mewn bythod agored, heb fawr o gyfle i ddefnyddio lle preifat ar gyfer gwaith

sensitif. Gall gweithio o bell annog y rheiny o dan oruchwyliaeth i ymgysylltu gyda gwaith prawf ac mae ganddo fanteision pan fydd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn ymwneud ag ardaloedd gwledig neu ddaearyddol mawr. Ond, mae hefyd yn cyflwyno risgiau busnes sydd angen eu cydnabod, eu hasesu a'u gwrthwynebu. Roedd staff prawf yn cwrdd ag unigolion mewn mannau cyhoeddus megis caffis, oedd yn cyfyngu ar y cwmpas i archwilio ac ymdrin â materion sensitif a phersonol. Roedd ymarferwyr hefyd yn defnyddio ymweliadau cartref i gwblhau gwaith cam-drin domestig dwys, gan eu rhoi eu hunain o dan risg o niwed o bosibl.

Cymerodd y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol agweddau gwahanol tuag at ddogfennu eu polisiau a'u strategaethau cam-drin domestig. Roedd y rhai mwyaf defnyddiol o'r rhain yn hawdd eu dilyn, wedi pennu'r ystod o ymddygiadau a chyd-destunau cam-drin domestig, wedi cyfleu'r broses reoli achosion ac yn cydnabod pwysigrwydd y dioddefwyr. Roedd rhai'n darparu canllawiau defnyddiol i ymarferwyr ar gydnabod ac ymdrin â'u hymateb eu hunain i unigolion oedd wedi cyflawni'r cam-drin domestig. Mae ymweliadau â'r cartref yn rhan bwysig o'r broses ddiogelu, gan alluogi ymarferwyr i nodi dangosyddion corfforol a chymdeithasol o risg o niwed i oedolion a phlant. Nid yw'r holl Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi cydnabod gwerth ymweliadau â'r cartref neu wedi gwneud y rhain yn orfodol mewn achosion diogelu a cham-drin domestig.

Yn y mwyafrif o achosion, rhoddwyd cyfarwyddyd ymgartrefu'r unigolion iddynt ar sail un-i-un. Fodd bynnag, mewn un Cwmni Adsefydlu Cymunedol, roedd sesiynau ymgartrefu'n cynnwys sesiynau grŵp rhywiau cymysg, a allai fod yn cymysgu dioddefwyr bregus gyda phobl oedd yn cyflawni troseddau. Rydym yn cynghori yn erbyn yr arfer yma.

Mae gan y system gefnogi achosion ar gyfer y gwasanaethau prawf, nDelius, system fflagio sy'n galluogi i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol ganfod y canlynol yn hawdd: materion diogelu, y lefel o risg o niweidio pobl eraill, p'un a yw achos wedi'i drafod ai peidio mewn Cynhadledd Aml-asiantaeth i Asesu Risgiau, statws cam-drin domestig a chyfranogaeth mewn achos o Weithiwr Cyswllt Partner. Mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu diweddarau'n rheolaidd am eu bod yn gallu hysbysu, er enghraifft, asesiadau o anghenion strategol, archwiliadau a throsolwg rheoli, a gallent ganiatáu i'r arbenigwyr sy'n rhan o'r achos gymryd agwedd fwy cydlynus. Roedd anghysonderau yn y defnydd a wnaed o fflagiau nDelius; roedd rhai heb dynnu sylw at gam-drin domestig yn yr achos, a phrin iawn y defnyddiwyd²³ y fflag Gweithwyr Diogelwch i Ferched (WSW).

Nid oedd gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol agwedd strategol tuag at bennu a blaenoriaethu'r angen am ymyriadau cam-drin domestig. Roedd hi'n anodd i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol ymdrin ag anghenion lleol yn gywir, am nad oes un drosedd unigol o gam-drin domestig, ac am fod offer asesu a fflagiau nDelius yn cael eu defnyddio'n anghyson. Felly, roedd hi'n amhosibl i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol wybod a oeddent yn cynnig nifer, ystod ac ansawdd gwasanaethau i fodloni'r angen a benwyd.

Grymuso ymarferwyr

Cawsom gwrdd ag ymarferwyr, a'u rheolwyr, oedd yn frwdfrydig tu hwnt ynghylch gwneud gwaith da. Llwyddodd rhai i wneud hyn, ond roedd llawer heb eu grymuso i wneud hynny.

Roeddem wrth ein boddau'n gweld bod gan y mwyafrif o swyddogion prawf dan hyfforddiant lwyth achosion wedi'i ddiogelu, ac roedd llawer yn teimlo eu bod wedi derbyn cefnogaeth o ansawdd da yn eu rôl. Ond, doedd hi ddim yn beth anghyffredin i swyddog cyfrifol gael 50 i 60 o achosion cymhleth, ac roedd gan y rheiny oedd â rolau rheoli achosion rhan amser lwythi gwaith

²³ Disodlwyd y term Gweithiwr Diogelwch i Ferched (WSW) gan y Gweithiwr Cyswllt Partner (PLW) am fod Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi wedi cydnabod y gallai'r rôl ymestyn i gynnwys dioddefwyr gwrywaidd yn y dyfodol.

annheg o anghyfartal. Roedd gan rai llwythi achos oedd yn llai ond a oedd yn anodd ymdopi â nhw, am eu bod wedi'u haseinio i achosion y tu hwnt i'w galluoedd.

Yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol lle aseiniwyd achosion gan ganolfannau gweinyddol, roedd achosion yn llai tebygol o gael eu haseinio ar sail sgil a phrofiad yr ymarferydd. Dywedodd rhai rheolwyr y gallent ddefnyddio beirniadaeth broffesiynol i ail aseinio achosion, ond nid oedd hynny'n beth arferol. Roedd swyddogion cyfrifol ar lefel swyddog gwasanaethau prawf yn rheoli achosion cymhleth heb fawr hyfforddiant perthnasol; roedd rhai heb fynychu'r cwrs ymwybyddiaeth cam-drin domestig sylfaenol. Mewn un Cwmni Adsefydlu Cymunedol, roedd swyddogion gwasanaethau prawf newydd wedi etifeddu llwythi achosion llawn swyddogion prawf.

Yn ystod cyfweiliadau, mynegodd swyddogion cyfrifol bryderon bod eu llwythi achosion a diffyg hyfforddiant yn cael effaith negyddol ar eu gallu i weithio gydag achosion o gam-drin domestig. Roedd rhai'n crynhoi eu barn am arferion fel a ganlyn:

"Mae'n ddull 'croesi bysedd'"

"Roeddwn yn gorfod torri corneli er mwyn gallu cario mlaen"

Dywedodd swyddogion cyfrifol bod rheolwyr yn ymatebol ac yn cynnig cymorth ond bod trosolwg yn ymatebol, gan fwyaf, ac yn dibynnu ar swyddogion cyfrifol i wybod pryd i geisio cymorth. Cafodd hyn ei gadarnhau gan ganfyddiadau ein harolygiad bod trosolwg o reolaeth effeithiol wedi'i ddapraru mewn dim ond 27% o'r achosion a aseswyd gennym. Roedd rhai rheolwyr llinell yn cario llwythi achos eu hunain ac yn methu cefnogi eu staff yn effeithiol. Mewn rhai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, roedd rheolwyr yn cymryd gwybodaeth a sgil eu swyddogion prawf hir-wasanaethol yn ganiataol, ond byddwn yn rhybuddio yn erbyn y dybiaeth fod profiad yn gyfatebol ag arferion effeithiol. Roedd y mwyafrif o swyddogion cyfrifol yn cydnabod bod eu Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn rhoi arweiniad ar sut i reoli camdriniaeth domestig ond roeddent yn dweud nad oedd ganddynt yr amser i gael gafael ar hyn a'i ddefnyddio.

Roedd staff yn gwerthfawrogi manteision gweithio gyda gliniaduron, yn enwedig am eu bod yn cael mynediad cyflym at wybodaeth gyfredol yn ystod cyfarfodydd. Fodd bynnag, roedd systemau technoleg gwybodaeth mewn rhai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn annibynadwy, a gwelodd y staff ei bod hi'n anodd cael gafael ar wybodaeth ar y we tra'r oeddent yn gweithio o bell. Roedd y model gweithio o bell wedi gadael staff ar eu pennau eu hunain o bosib, gyda chyfleoedd cyfyngedig i rannu eu profiadau gwaith gyda chydweithwyr i gefnogi eu lles eu hunain.

2.3. Casgliadau a goblygiadau

Roedd absenoldeb arweiniad trosfwaol ar lefel genedlaethol ar gyfer cam-drin domestig wedi arwain at ddiffyg dull cydlynol o yrru a chefnogi Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i weithio'n effeithiol gydag achosion o gam-drin domestig. Gweithiodd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn galed i ddarparu ymyriadau i bobl sydd wedi cyflawni camdriniaeth domestig ond mae angen dull mwy ffurfiol o wneud hyn er mwyn sicrhau bod yr ymyriadau'n adlewyrchu angen lleol, wedi eu seilio ar dystiolaeth, yn cael eu darparu'n effeithiol a - fan lleiaf - nad ydynt yn gwneud unrhyw niwed.

Roedd gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol ddyheadau positif ar gyfer gwaith cam-drin domestig. Roedd rhai'n cefnogi'r rhain drwy arweiniad, polisiau a gwneud penderfyniadau strategol cadarn. Fodd bynnag, nid oedd y rhain yn trosi'n arferion effeithiol ac nid oedd unrhyw systemau i sicrhau eu bod yn gwneud hynny.

Nid oedd ymarferwyr wedi'u grymuso i ddarparu gwasanaeth cam-drin domestig o ansawdd da. Roedd gan y mwyafrif lwythi gwaith na allent ymdopi â nhw. Roedd llawer ohonynt yn brin o amser, gwybodaeth, hyfforddiant a chefnogaeth i reoli eu hachosion cam-drin domestig. Arweiniodd hyn at wendidau sylweddol yn ansawdd y rheoli achosion.

3. Gwaith i leihau aildroseddu

Yn y bennod hon rydym yn adrodd ar allu Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i adnabod cam-drin domestig mewn achosion unigol, ansawdd yr asesiad, cynllunio ac ymyriadau i leihau aildroseddu, a pha mor dda mae ymarferwyr yn ymgysylltu unigolion ymhob cam o'u gorchymyn, trwydded neu gyfnod goruchwyllo ar ôl y ddedfryd.

3.1 Yr hyn a ganfuwyd gennym

Asesiad a chynllunio i leihau cam-drin domestig

Gallai saith deg pump y cant o swyddogion cyfrifol a gyfwelwyd gennym ddiffinio nodweddion cam-drin domestig ac, mewn 96% o achosion, roedd cam-drin domestig wedi'i bennu ar y cyfle cynharaf posibl.

Roedd ansawdd yr asesiad yn ddigon da i gefnogi pennu ymyriadau priodol mewn llai na hanner yr achosion a aseswyd gennym. Nid oedd swyddogion cyfrifol yn dda am ddadansoddi a deall y ffactorau cymhleth sy'n gysylltiedig ag ymddygiadau cam-drin domestig, a fyddai wedi eu galluogi i ddefnyddio eu hasesiadau i bennu ymyriadau perthnasol. Roedd ansawdd yr asesiad wedi'i bennu'n rhannol gan yr offer a ddefnyddiwyd i gefnogi'r gwaith yma. Mewn rhai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol dim ond yr asesiad mwyaf sylfaenol a ddisgwyliwyd.

Ychydig iawn o asesiad a chynllunio oedd i ddeall a lleihau effeithiau digwyddiadau trawmatig blaenorol i'r defnyddiwr gwasanaeth, megis eu profiadau eu hunain fel dioddefwyr camdriniaeth domestig neu brofedigaeth. Os nad oedd unrhyw ofyniad i fynd ar raglen BBR neu i gael Gofynion Gweithredoedd Adsefydlu cam-drin domestig, roedd yr angen i archwilio a gwella perthnasoedd, yn enwedig perthnasoedd rhyng-deuluol, yn cael ei anwybyddu'n aml iawn.

Roedd nifer o swyddogion cyfrifol wedi croesawu offer asesu a chynllunio newydd eu Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ac roeddent yn eu defnyddio nhw'n ddeallus i gyfuno eu dadansoddiad eu hunain o anghenion at ei gilydd mewn achos gyda barn defnyddwyr gwasanaeth.

Roedd cynlluniau o ansawdd da i'w gweld, oedd yn cynnwys digon o wybodaeth am y gwaith sydd i gael ei gyflawni i leihau cam-drin domestig, mewn oddeutu hanner yr achosion y buom yn edrych arnynt. Roedd cynllunio'n adlewyrchu ansawdd asesiad, felly mewn achosion lle nad oedd digon o asesiad, roedd y cynlluniau'n fwy tebygol o fod yn gyfyngedig. Gwelsom esiamplau o gynlluniau gyda dilyniant rhagorol o ymyriadau. Roedd hyn yn caniatáu i ddefnyddwyr gwasanaeth gwblhau gwaith i ymdrin, er enghraifft, â'u hiechyd meddwl neu anghenion cam-drin sylweddau, cyn cwblhau rhaglenni BBR neu Ofynion Gweithredoedd Adsefydlu cam-drin domestig.

Ymyriadau

Roedd pob Cwmni Adsefydlu Cymunedol yn cyflawni ei oblygiad i ddarparu rhaglen BBR. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau atgyfeirio gan y llysoedd wedi dirywio, yn ddramatig mewn rhai lleoliadau, ac roedd y cyfraddau athreuliaid yn uchel. Roedd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn ein cynghori nad oedd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol bob amser yn gallu helpu dedfrydwyr i wneud penderfyniadau deallus ynghylch y cwestiwn a ddylid gorfodi gofynion BBR ai peidio. Felly, cafodd rhai unigolion eu dedfrydu i gwblhau BBR pan nad oeddent yn gymwys i wneud hynny.

Gwelsom achosion eraill lle'r oedd y rheiny a fyddai wedi elwa o gyfranogi yn y rhaglen hon heb gael eu gorfodi i wneud hynny gan y llysoedd. Roedd cant a saith o achosion y buom yn edrych arnynt yn ystod yr archwiliad hwn yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth gwrywaidd; dim ond 29 o'r rhain oedd wedi gorfod cwblhau BBR. Ar adeg ein harolygiad, roedd 13 o ddynion wedi cychwyn y cwrs. Ond, mewn saith achos roedd y cwrs wedi cael ei ganslo.

Gellir ychwanegu BBR at gynllun dedfrydu heb gyfarwyddyd y llys. Fodd bynnag, prin iawn yw'r achosion o hynny. Ymysg y rhesymau am hyn mae'r canlynol: hyd y ddedfryd y mae'n rhaid ei gorfodi er mwyn sicrhau bod modd cwblhau'r rhaglen; yr angen i'r swyddog cyfrifol allu pennu hyn fel ymyriad priodol; ac anawsterau mewn sicrhau bod unigolion yn cwblhau'r cwrs. Fodd bynnag, ni phrofwyd hyn yn ystod yr arolwg.

Roedd cyfradd y rhaglenni BBR a gwblhawyd yn gadarnhaol yn llawer rhy isel, yn enwedig o ystyried bod gwaith ymchwil yn dangos bod y risg o niwed yn y dyfodol wedi'i gynyddu mewn unigolion sy'n methu cwblhau rhaglen unwaith y mae wedi cychwyn (Gwaith Ymchwil y Swyddfa Gartref, Cyfarwyddyd Datblygiad ac Ystadegau, 2002).

Roedd rhai timau rhaglenni'n symud unigolion a grwpiau o gwmpas i ymdrin â hyn. Roedd y tîm yn Ne Ddwyrain Swydd Gaerhirfryn yn defnyddio rhaglen amserlennu technoleg gwybodaeth i helpu i reoli cymhlethdodau cadw unigolion ar raglenni. Roedd hefyd wedi cynyddu'r trwygyrch drwy ddarparu BBR i asiantaethau eraill heblaw'r gwasanaethau prawf. Fodd bynnag, ar draws y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, ychydig iawn o ffocws oedd ar gynyddu'r lefelau cwblhau positif. Yn lle hynny, bu Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn canolbwyntio ar strategaethau i newid y cydbwysedd cwblhau o'r negyddol i'r niwtral er mwyn osgoi cosbau ariannol gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, er enghraifft drwy ofyn i'r llysoedd dynnu'r gofyniad i gwblhau BBR.

Rhoddodd y defnyddwyr gwasanaeth eu barn i ni am eu profiad o BBR. Roedd y mwyafrif o'r rhain yn bositif. Roedd y dynion yn gwerthfawrogi'r cyfle i archwilio a dod i adnabod eu hymddygiad eu hunain ac roeddent yn gwerthfawrogi'r dulliau diddorol a ddefnyddir gan hyrwyddwyr. Roedd rhai'n bryderus eu bod wedi derbyn gwybodaeth ddryslyd ynglŷn â phryd y byddent yn cychwyn y cwrs.

Dyma rai esiamplau o'u safbwyntiau:

"Dywedwyd wrthyf fy mod yn mynd ar gwrs i atal trais yn erbyn menywod ond mae hyn wedi'i ganolbwyntio arnaf i ac ar ddysgu amdanaf fy hun"

"Rwyf wedi dysgu llawer ynglŷn â deall fy ymddygiad"

"Dydy rhai ohonom ddim yn deall y geiriau a ddefnyddiwyd am ein bod yn hogiau caib a rhaw"

"Mae dyddiau BBR yn cael eu newid ac mae'n rhaid i chi gymryd amser allan o'r gwaith"

"Mae BBR yn deffro eich meddwl ychydig bach ac yn gwneud i mi deimlo'n well"

Rhoddodd yr ymarferwyr ar draws y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol adborth positif ynghylch cynnwys BBR. Roeddent yn awgrymu bod unigolion, unwaith yr oeddent wedi bod ar y sesiynau cyntaf, wedi dechrau ymddiddori ac yn debygol o aros hyd ddiwedd y rhaglen. Fodd bynnag dywedodd rhai bod BBR wedi ei seilio ar hen waith ymchwil oedd yn canolbwyntio ar rym a rheolaeth. Roedd eraill yn teimlo ei fod wedi'i gyfyngu gan ei ffocws ar ddynion a thrais partner agos a'i fod yn amhriodol i lawer o bobl iau syn cyflawni troseddau.

Yn y mwyafrif o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol, roedd y timau rhaglen yn brofiadol ac wedi eu hyfforddi'n dda. Roedd ganddynt oll ddiddordeb yn eu gwaith, a gwelsom esiamplau o arferion diddorol a chymwys. Fodd bynnag, er gwaethaf eu rhwymedigaeth i fonitro darpariaeth BBR, nid oeddent oll yn recordio'r sesiynau hyn ar fideo/sain. Roedd hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i hyrwyddwyr ddatblygu eu sgiliau.

Roedd timau rhaglenni'n gweithio'n galed i ddarparu ymyriadau grŵp sy'n ystyried daearyddiaeth eu hunedau darparu lleol ac ymrwymadau cyflogaeth cyfranogwyr. Er gwaethaf hynny, cafwyd oedi cyn cychwyn cyrsiau, ac mewn rhai achosion roedd hyn wedi golygu nad oedd unigolion wedi gallu cwblhau'r rhaglen cyn diwedd y ddedfryd, y drwydded neu'r

arolygiaeth ar ôl y ddedfryd. Cafodd rhai cyrsiau a rhaglenni eu canslo. Gellid cysylltu rhywfaint o hyn ag anawsterau wrth geisio canfod digon o unigolion i gynnal grŵp effeithiol. Hefyd roedd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn cael trafferth llenwi manau gwag yn eu timau rhaglenni, ac roedd hyn yn cyfyngu ar eu gallu i hyrwyddo grwpiau.

Roedd pob Cwmni Adsefydlu Cymunedol yn cynnig cwrs Gofyniad Gweithredoedd Adsefydlu ar gam-drin domestig, ac roedd y rhain yn denu gwell cyfraddau cyflawniad na BBR. Roedd rhai'n ymyriadau o'r gorffennol, a ddatblygwyd cyn y *Gweddnewid Adsefydliad*. Roedd y mwyafrif wedi'u creu'n fewnol gan bobl frwdfrydig ar sail ad hoc am eu bod wedi canfod bylchau yn y gwasanaeth. Yn Surrey, er enghraifft, roeddent wedi ymdrin â bwlch mewn gwasanaethau camdefnyddio sylweddau drwy ddatblygu ymyriad alcohol byr i'r rheiny oedd wedi cyflawni trosedd gam-drin domestig, ac roeddent wedi cwblhau hyn cyn cymryd rhan mewn BBR. Darparwyd grwpiau Gofynion Gweithredoedd Adsefydlu gan hyrwyddwyr a hyfforddwyr i ddarparu BBR ond nid oedd hyn yn gwarantu eu bod wedi cael eu darparu fel y bwriadwyd. Dywedodd rhai hyrwyddwyr llai profiadol eu bod yn teimlo'n amharod neu heb gael eu cefnogi wrth wneud y gwaith yma.

Gellid addasu Gofyniadau Gweithredoedd Adsefydlu ar gyfer cam-drin domestig i'w defnyddio ar sail un-i-un i'r defnyddwyr gwasanaeth hynny nad oedd y gwaith grŵp yn briodol iddynt. Cafodd rhai eu darparu gan hyrwyddwyr rhaglen. Gwelsom achosion lle cymerwyd yr agwedd yma tuag at fenywod oedd wedi cyflawni camdriniaeth domestig yn erbyn eu partneriaid ac ar gyfer partneriaethau o'r un rhyw.

Darparodd y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol swyddogion cyfrifol gydag ymyriadau gan ddefnyddio ystod o wahanol agweddau. Roedd rhai'n ceisio cydlynu'r ymyriadau a gynigiwyd drwy eu systemau technoleg gwybodaeth. Roedd rhai swyddogion cyfrifol yn darparu'r Gofynion Gweithredoedd Adsefydlu ar gam-drin domestig ar sail un-i-un gan fenthyg adnoddau gan gydweithwyr, pori'r we am adnoddau neu ddyfeisio eu hymyriadau un-i-un eu hunain. Nid oedd system ar waith i sicrhau bod ymyriadau wedi eu seilio ar dystiolaeth ac wedi eu darparu'n ddiogel ac yn effeithiol.

Gwelsom nad oedd cyflawnwyr troseddau'n cwblhau digon o waith i leihau aildroseddu. Roeddent wedi gwneud digon o gynnydd o ran cyflawni'r rhaglen achrededig a'r Gofynion Gweithredoedd Adsefydlu a gafodd eu gosod gan y llys mewn 45% o'r achosion y buom yn edrych arnynt. Roedd gormod o bobl heb gyfranogi mewn unrhyw ymyriadau ac roedd dystiolaeth finimol i ddangos bod gwaith cam-drin domestig ystyrlon wedi'i gwblhau yn y ddalfa.

Adolygiadau

Nid oedd cynnydd yn cael ei adolygu pan ddylai fod yn cael ei adolygu, ac roedd adolygiad ysgrifenedig ar ffeil mewn dim ond 32% o'r achosion. Roedd llawer o adolygiadau'n arwynebol ac nid oeddent yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth. Roedd y cofnodi'n wael a, lle nad oedd cofnod o'r adolygiad, roedd hi'n anodd mesur y cwrs yr oedd yr unigolyn wedi'i gymryd a chanfod beth oedd angen ei wneud yn ystod gweddill y ddedfryd.

Ymgysylltiad y defnyddiwr gwasanaeth

Nid oedd y gwaith i gymell a sicrhau diddordeb unigolion yn ddigon da. Yn rhy aml, nid oeddent yn cymryd rhan ystyrlon yn eu hasesiad, eu cynllunio na'r adolygiad o'u gwaith. Yn gyffredinol, roedd y cysylltiad yn ddigon da i annog gostyngiad mewn camdriniaeth domestig mewn 59% o achosion.

Roedd lefel y cysylltiad rhwng y swyddog cyfrifol a'r unigolyn yn aml wedi'i bennu gan fodel gweithredu'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol, ac yn dibynnu ar ansawdd yr asesiad cychwynnol. Gwelsom achosion lle nad oedd y drosedd fynegai'n berthnasol i gam-drin domestig a lle, ar ôl asesiad sylfaenol, y trefnwyd i'r unigolyn gael cysylltiad misol. Gwelsom achosion lle'r oedd swyddogion cyfrifol yn gweld unigolion mor aml ag oedd angen er mwyn sicrhau y gallent ymdrin â materion cam-drin domestig. Mewn rhai achosion, yn enwedig lle'r oedd defnyddiwr y gwasanaeth yn ymwneud ag asiantaethau eraill neu'n cwblhau BBR, nid oedd swyddogion

cyfrifol wedi cael digon o gysylltiad â nhw o bell ffordd. Cyfyngodd hyn ar gyfleoedd i adeiladu ar waith oedd yn cael ei wneud mewn mannau eraill neu i ddarparu anogaeth barhaus i ymgysylltu â'r ymyriadau hyn.

Roedd llawer o esiamplau o staff yn derbyn yr hyn yr oedd unigolyn wedi'i ddweud am eu rhwymedigaethau cyflogaeth heb sicrhau bod ganddynt dystiolaeth i wirio hynny. O ganlyniad, roedd potensial i unigolion osgoi gweld eu swyddog cyfrifol neu i osgoi cymryd rhan mewn ymyriadau adeiladol heb reswm go iawn. Roedd hyn o bryder arbennig mewn perthynas â BBR, lle gellid gwneud ceisiadau i'r llys yn ddianghenraid i dynnu'r gofyniad yma.

Ymatebodd y staff mewn gwahanol ffyrdd pan aeth unigolion ar goll. Mewn un achos, lle'r oedd gwarant heb fechniaeth wedi'i gyhoeddi, roedd pryderon am y risg o niwed i blant yr oedd yr unigolyn eisiau cael cysylltad â nhw. Nid oedd unrhyw gysylltiad gyda gofal cymdeithasol plant am absenoldeb yr unigolyn. Mewn un arall, nid oedd y swyddog cyfrifol wedi gwneud unrhyw ymdrech i ganfod yr unigolyn er gwaethaf y ffaith fod problemau lles yn gysylltiedig â'r unigolyn hwnnw. Fodd bynnag, cafwyd achosion lle'r oedd swyddogion cyfrifol wedi gwneud ymdrech sylweddol, gan gynnwys cysylltu gydag aelodau'r teulu, i ganfod unigolion.

Esiampl o arfer da: arfer cynhwysol yng Ngorllewin Swydd Efrog

Mae Phil yn ddibynol ar alcohol. Rhoddwyd gorchymyn cymunedol 12 mis iddo gyda gofyniad i fynychu gwasanaethau trin alcohol a Gofyniad Gweithredoedd Adsefydlu am droseddau yn erbyn staff ysbyty pan oedd wedi bod yn yfed. Roedd ganddo droseddau cam-drin domestig blaenorol yn erbyn ei bartner ac aelodau benywaidd o'i deulu. Roedd y swyddog cyfrifol yn ystyried ehangder ymddygiad Phil yn ei rheolaeth ar yr achos. Sefydlodd a chynhaliodd hithau berthynas effeithiol gyda theulu Phil ac asiantaethau alcohol yr oedd yn gweithio â nhw. Roedd hyn yn golygu y gallai atgyfnerthu eu gwaith a chroesgyfeirio eu gwybodaeth gyda honno a ddarparwyd gan Phil i fonitro a rheoli risg o niwed yn effeithiol. Aeth ati'n rhagweithiol i gadw llygad ar apwyntiadau, gan gydbwysu'r angen i Phil gydymffurfio â'r gorchymyn gyda'i ymrwymadau i asiantaethau eraill. Roedd Phil yn ymwneud yn weithredol â'i gynlluniau dedfryd, oedd yn adlewyrchu gair am air yr hyn yr oedd yn dyheu eu cyflawni a sut. Saith mis ar ôl cychwyn y gorchymyn, nid oedd Phil yn yfed unrhyw alcohol, ac roedd yn parhau i ymgysylltu ag asiantaethau, gan gydymffurfio â'i orchymyn ac nid oedd wedi aildroseddu. Roedd wedi mynegi diddordeb mewn dod yn wirfoddolwr gyda'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol, ac roedd y swyddog cyfrifol yn ei helpu i weithio tuag at wireddu'r uchelgais yma.

Aethom ati i edrych ar bum achos yn ymwneud â merched oedd wedi cyflawni troseddau cam-drin domestig, oll yn erbyn partneriaid a chyn-bartneriaid gwrywaidd. Er bod y niferoedd yn rhy isel i ddod i gasgliadau cadarn, gwelsom agwedd gynhwysol yn yr achosion yma: roedd y staff yn fwy tebygol o ymgysylltu â throseddwyr benywaidd mewn gwaith asesu, cynllunio ac adolygu cynnydd, ac roedd lefel a natur y cysylltiad a gynlluniwyd yn fwy priodol.

Roedd menywod yn cael eu cyfeirio'n aml i ganolfannau menywod lleol, lle'r oedd y ffocws ar eu lles eu hunain. Nid oedd digon o ffocws ar eu hymddygiadau cam-drin domestig ac, mewn un achos, nid oedd unrhyw gydnabyddiaeth bod cam-drin domestig yn un o nodweddion yr achos.

Roedd asesiadau adsefydlu cyn rhyddhau'n helpu i ganfod dynion yn y carchar oedd wedi dioddef cam-drin domestig. Fodd bynnag, nid oedd gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol systemau ar waith i ddarparu cefnogaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig gwrywaidd ac nid oedd unrhyw ddynion yn derbyn cefnogaeth drwy wasanaeth y cynghorwr trais domestig annibynnol (IDVA).

Mae'r astudiaethau achos a ganlyn yn ddangosol:

Astudiaeth achos 1:

Rhoddwyd dedfryd o 24 mis i Edwina gyda Gofyniad Gweithredoedd Adsefydlu (RAR) a gofyniad Rhaglen Sgiliau Meddwl (TSP) am aflonyddu ei chymdogion yn hiliol. Roedd ganddi hefyd hanes o gamdriniaeth domestig yn erbyn ei chyn-bartner, ac roedd trefniadau diogelu plant ar gyfer ei phlant hefyd. Defnyddiodd ei swyddog cyfrifol asiantaethau niferus i ymdrin â chamdriniaeth alcohol Edwina ac i wella ei sgiliau rhianta yn y ganolfan deulu leol. Hefyd gwnaeth atgyfeiriad amserol i'r Rhaglen Sgiliau Meddwl. Aeth y swyddog cyfrifol i'r cyfarfodydd diogelu plant ond roedd hi'n anodd parhau'r cysylltiad gyda gofal cymdeithasol plant ac, er gwaethaf ei dyfalbarhad, nid yw eto wedi derbyn yr wybodaeth i'w helpu i adolygu'r achos. Nid oedd digon o gysylltiad parhaus gyda'r heddlu i ganfod gwybodaeth ynghylch achosion o alw'r heddlu allan am gamdriniaeth domestig neu i fesur cynnydd y gwaith gyda Edwina i ymdrin â'i defnydd o alcohol.

Astudiaeth achos 2:

Dedfrydwyd Mary i orchymyn cymunedol naw mis am ymosod ar ei phartner. Roedd hi yn ei 50au ac nid oedd wedi cael euogfarnau blaenorol. Cyngorodd y swyddog cyfrifol nad oedd unrhyw ymyriadau ar gael i fenywod oedd wedi cyflawni troseddau cam-drin domestig. Ond, cyfeiriwyd Mary at y ganolfan fenywod leol, lle cafodd gymorth i ganfod llety. Roedd yn rhaid iddi fynd ar gwrs perthnasoedd iach hefyd. Roedd y diffyg cyfathrebu rhwng y swyddog cyfrifol a'r ganolfan fenywod, oedd heb gael defnyddio nDelius, wedi arwain at oedi cyn cychwyn yr ymyriad yma. Nid oedd digon o gyfathrebu gyda'r heddlu i ddiogelu dioddefwr Mary, er enghraifft i wirio faint o weithiau y galwyd yr heddlu allan ar gyfer achosion o gam-drin domestig ac i fonitro'r gorchymyn atal.

Mae gofyn i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol (drwy eu contractau) drefnu am waith di-dâl (UPW) a orchymynwyd drwy'r llys i gychwyn o fewn saith diwrnod i'r dedfrydu. Gwelsom fod Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi blaenoriaethu gofynion gwaith di-dâl cyn cychwyn gweithio i ymdrin â cham-drin domestig. Nid oedd unigolion yn cychwyn eu BBR neu'n cael mynediad at ymyriadau pwysig eraill yn ddigon buan. Roedd swyddogion cyfrifol yn llai tebygol, mewn achosion o waith di-dâl, o adolygu ac addasu eu cynlluniau gwaith er mwyn ystyried newidiadau mewn amgylchiadau unigolion neu eu lefel o gydymffurfiaid, neu i gymryd camau gorfodi lle'r oedd teilyngod mewn gwneud hynny.

3.2. Casgliadau a goblygiadau

Nid oedd yr asesiad a'r cynllunio drwy gydol oes yr achos yn ddigon da. Ni wnaeth y swyddogion cyfrifol ddigon i ddeall amgylchiadau llawn y cam-drin domestig. Roedd hyn yn golygu na allent wneud ac addasu eu gwaith i fodloni anghenion penodol yr achos.

Rhoddodd y swyddogion cyfrifol ystyriaeth i amgylchiadau personol unigolion wrth gynllunio eu gwaith ac roeddent wedi gwneud rhywfaint o ddefnydd effeithiol o ymyriadau a gwasanaethau. Fodd bynnag, nid oedd gan rai unigolion ddigon o gysylltiad gyda'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol ac ni wnaed digon o waith i'w cymell nhw i gydymffurfio â'u dedfryd.

Roedd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn darparu rhaglenni BBR a Gofyniadau Gweithredoedd Adsefydlu cam-drin domestig, ac yn gweithio i wella mynediad at y rhain. Fodd bynnag, nid oedd digon o atgyfeiriadau at raglen BBR. Cafwyd oedi mawr cyn i nifer o unigolion allu cychwyn y rhaglen ac roedd y nifer a'i chwblhaodd yn rhy isel.

Roedd rhai unigolion yn gorffen eu dedfrydau heb iddynt wneud y gwaith angenrheidiol i ymdrin â'u hymddygiad, gan adael dioddefwyr yn fwy bregus nag oedd raid.

4. Diogelu dioddefwyr a phlant

Yn y bennod hon rydym yn adrodd ar ein canfyddiadau sy'n ymwneud â'r flaenoriaeth a roddir i ddioddefwyr a phlant ar lefel strategol ac ymarferol. Rydym yn ystyried faint o ystyriaeth a roddodd ymarferwyr i'r angen am ddiogelu dioddefwyr a phlant yn eu gwaith gyda phobl a gyflawnodd gamdriniaeth domestig a'r systemau sydd yn eu lle i roi gwybodaeth a chefnogaeth iddynt.

4.1. Yr hyn a welsom

Roedd y gwaith i ddiogelu dioddefwyr a phlant yn ddigon da mewn dim ond 29% o'r achosion. Er gwaethaf proffil strategol uchel mewn rhai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, roedd gwahaniaeth clir rhwng gweledigaeth y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r realiti ar lefel ymarferol. Mewn rhai achosion, nid oedd gan weithwyr prawf ddigon o wybodaeth a chefnogaeth i ddeall effaith cam-drin domestig (yn arbennig ar blant) neu natur ddynamig cam-drin domestig a phwysigrwydd adolygu ac ymateb i wybodaeth newydd.

Mae rôl y Gweithiwr Cyswllt Partner yn agwedd integrol a gorfodol o BBR (o'i ddapraru yn y gymuned). I gymryd rhan mewn BBR, mae'n rhaid i unigolion gydsynio i Weithiwr Cyswllt Partner gael cysylltu â'u dioddefwr. Dylai'r Gweithiwr Cyswllt Partner gysylltu â'r dioddefwr o fewn wythnos i atgyfeiriad yr unigolyn at raglen BBR (mewn theori, dylai hyn fod o fewn wythnos i'r ddedfryd). Bydd y Gweithiwr Cyswllt Partner yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau priodol i gynnig gwybodaeth a chefnogaeth i ddioddefwyr ac i helpu i'w hamddifyn a diogelu eu plant. Un o'u rolau allweddol yw cadw llygad craff am gynnydd posibl mewn niwed ac i sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei rhannu gyda gweithwyr proffesiynol perthnasol.

Roedd y Gweithwyr Cyswllt Partner yn wybodus, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi eu hyfforddi'n briodol ac yn ddigon profiadol. Roedd hi'n amlwg eu bod yn ymroddedig i'w rôl, ac roedd rhai'n mynd y tu hwnt i'w gofynion i gefnogi'r dioddefwyr a'u plant. Fodd bynnag, roedd ganddynt lwythi gwaith trwm.

Doedd hi ddim yn anarferol i Weithiwr Cyswllt Partner rhan amser fod yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i Uned Ddarparu Leol gyfan. Yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol oedd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth Gweithwyr Cyswllt Partner ar gyfer Gofyniad Gweithredoedd Adsefydlu cam-drin domestig ac ymyriadau eraill, nid oedd gan y Gweithwyr Cyswllt Partner ddigon o amser i gyflawni'r rôl yma. Nid oedd y mwyafrif yn derbyn atgyfeiriadau i'w gwasanaeth mewn ffordd amserol ac weithiau nid oeddent yn derbyn atgyfeiriadau o gwbl. Roedd rhai'n debryn cymorth gweinyddol i'w helpu i fynd ar ôl atgyfeiriadau a chysylltu â dioddefwyr, ond doedd eraill ddim yn cael unrhyw gefnogaeth ac roeddent yn gorfod cyfyngu'r cysylltiad cychwynnol gyda dioddefwyr i un llythyr. Roedd trefniadau Ymddiriedolaeth Prawf o'r gorffennol oedd wedi darparu mynediad at gefnogaeth seicolegol allanol wedi dod i ben ac nid oedd gan Weithwyr Cyswllt Partner y gwasanaeth hanfodol hwn bellach. Felly, roeddent yn aml yn gweithio mewn gwactod heb systemau effeithiol i gefnogi eu lles nac i fonitro eu gwaith a sicrhau ei ansawdd.

Esiampl o arfer da: ymateb effeithiol i risg uwch o niwed yn Swydd Gaerlŷr

Rhodddwyd gorchymyn dedfryd gohiriedig 18 mis i Steve gyda gofyniad i gwblhau BBR am ymosod ar ei bartner. Yn ystod un o'i sesiynau BBR, datgelodd agweddau tuag at fenywod oedd yn achosi pryder ynghyd â'i fwriad i gymryd ei blant. Gweithiodd tîm y rhaglen yn gyflym ac effeithiol gyda'r swyddog cyfrifol a'r gweithiwr cyswllt partner i roi pecyn o ddiogelwch at ei gilydd i'r dioddefwr a'i phlant. Gwnaethent atgyfeiriad cyflym i'r gwasanaeth gofal cymdeithasol plant a gweithiodd y gweithiwr cyswllt partner gyda'r dioddefwr i sicrhau ei bod yn cael ei chefnogi'n dda.

Esiampl o arfer gwael:

Roedd Sean yn ddyn ifanc iawn oedd wedi derbyn ei ddedfryd gyntaf: gorchymyn cymunedol 18 mis gyda gofyniad i gwblhau oriau gwaith di-dâl, y rhaglen BBR a dyddiau gofyniad gweithredoedd adsefydlu am ymosod ar ei bartner. Roedd oediad o saith mis cyn y gallai Sean gychwyn BBR. Yn y cyfamser, ymosododd ar ei bartner eto. Adroddwyd hyn i'r heddlu a'r swyddog cyfrifol gan y gweithiwr cyswllt partner. Ni chymerodd y swyddog cyfrifol unrhyw gamau i ymateb i hyn, ac ni adolygodd y cynllun i reoli'r risg o niwed i'r dioddefwr, ni weithiodd gyda'r heddlu na cheisio unrhyw wybodaeth ynghylch galw'r heddlu allan am gam-drin domestig.

Yn Ne Ddwyrain Sir Gaerhirfryn, ymdriniodd y tîm ymyriadau gyda'u pryderon am yr atgyfeiriadau hwyr ac ar goll i'w gweithiwr cyswllt partner drwy greu cronfa ddata o ddiodefwyr. Gan adlewyrchu system gysylltiadau nDelius, mae'r gronfa ddata'n helpu i olrhain llwythi gwaith y gweithwyr cyswllt partner a fflagio gwaith sydd angen ei gwblhau. Mae'r nifer o ddiodefwyr y cynigir cefnogaeth iddynt gan weithiwr cyswllt partner wedi cynyddu deirgwaith ers ei gyflwyniad.

Asesiad a chynllunio i gadw diodefwyr a phlant yn ddiogel

Gwelsom esiamplau o waith ymchwilio trwyadl er mwyn deall natur y cam-drin domestig a defnyddio profiad diodefwyr a phlant perthnasol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd ansawdd y gwaith asesu i ganfod faint o risg yr oedd unigolion yn ei beri i'w diodefwyr yn anfodddhaol. Mewn perthynas â phlant, roedd yn wael. Roedd yr asesiadau'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw diodefwyr yn ddiogel mewn 58% o achosion ac ar gadw plant yn ddiogel mewn 43%. Roedd swyddogion cyfrifol yn tueddu i beidio cwestiynu'r asesiadau risg o niwed a gwblhawyd yn y llys, sydd mewn rhai achoson wedi bod yn frysiog ac yn anghywir. Roedd eraill yn credu yn y sicrwydd a ddarperir gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn hytrach na chymryd agwedd ymchwiliol neu heriol. O ganlyniad, roedd y lefel o risg o niwed wedi ei amcangyfrif yn rhy isel, yn arbennig mewn perthynas â phlant.

Categoriâu risg o niwed				
	Categori risg canolig o niwed difrifol		Categori risg uchel o niwed difrifol	
	<u>Diodefwyr</u>	<u>Plant</u>	<u>Diodefwyr</u>	<u>Plant</u>
<u>Beirniadaeth Cwmni Adsefydlu Cymunedol</u>	100 (89%)	51 (46%)	0	0
<u>Beirniadaeth Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi</u>	105 (94%)	74 (66%)	2 (2%)	3 (3%)

Esiampl o arfer gwael:

Roedd David yn ddyrn aeddfed oedd heb droseddu hyd nes yr ymosododd yn ddirybudd ac yn ddifrifol ar ei wraig ac anafu ei fab a geisiodd ei rwystro. Cafodd orchymyn dedfryd ohiriedig o 24 mis ac roedd gofyn iddo gwblhau oriau o waith di-dâl a Gofyniad Gweithredoedd Adsefydlu.

Dylai'r achos fod wedi cael ei anfon yn ôl at y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn syth ar ôl ei ddyrannu, oherwydd roedd dangosyddion yn dangos bod David yn peri risg uchel o niwed i'r dioddefwr a'i phlant. Cwblhaodd David ei Ofyniad Gweithredoedd Adsefydlu cam-drin domestig ac oriau gwaith di-dâl yn gyflym. Yn ystod yr amser yma, ychydig iawn o gysylltiad a gafodd gyda'i swyddog cyfrifol. Ni chwblhawyd unrhyw waith gydag o ers cwblhau ei Ofynion Gweithredoedd Adsefydlu, ac ychydig iawn o reolaeth oedd gan ei swyddog cyfrifol dros yr achos. Roedd y ffocws ar ddiodefwyr David yn gyfyngedig.

Roedd y gwaith wedi'i ganolbwyntio ar drais y partner agos, a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol yn dibynnu ar yr heddlu i fonitro'r gorchymyn atal. Heb atgyfeiriad at BBR, nid oedd y Cwmni Adsefydlu Cymunedol yn darparu unrhyw gefnogaeth i'r dioddefwyr. Nid oedd y swyddog cyfrifol yn ymwybodol o unrhyw gyfranogaeth gan gynghorwr trais domestig annibynnol na sut yr oedd Cynhadledd Aml-asiantaeth i Asesu Risgiau (MARAC) wedi cyfrannu at reoli'r achos. Cymerodd hithau eiriau David yn llythrennol a chredai na fyddai'n ailadrodd yr ymddygiad troseddol eto, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi hynny ac roedd David yn awyddus i'w deulu ddychwelyd ato.

Roedd y prinder dadansoddiad a mewnwelediad i'r risg o niwed yn yr achos yma wedi gadael gwraig David a diodefwyr eraill yn agored i niwed pellach.

Roedd swyddogion cyfrifol yn defnyddio eu gallu i gyrraedd y targed o gynllun dedfryd 15 diwrnod fel eu mesur o lwyddiant. Doedd llawer ohonynt ddim yn gwybod am oblygiadau hyn a'r ffaith fod angen cymryd camau ar unwaith mewn rhai achosion i ddiogelu diodefwyr a phlant. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol yn syth ar ôl i unigolyn gael ei ryddhau o'r ddalfa, neu pan godwyd amodau mechnïaeth amddiffynol ar ôl dedfrydu. Yn y ddau amgylchiad yma, mae'n bwysig canfod ar unwaith ymhle mae'r unigolyn yn byw, a gweithredu i ddiogelu diodefwyr a phlant.

Gall SARAs²⁴, pan gânt eu cwblhau'n dda, chwarae rhan bwysig mewn pennu cymhwysedd ar gyfer rhaglen BBR a chreu darlun cyflawn o'r risg o niwed o gam-drin domestig. Felly, gallent helpu i bennu a chynllunio i'r gwaith gael ei gwblhau yn ystod achos. Ychydig o SARAs oedd yn cael eu pasio i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol o'r llys ac roedd rhy ychydig yn cael eu cwblhau ar ôl dyraniad. Roedd y mwyafrif o SARAs ar ffeil wedi'u cwblhau'n gywir ond heb fawr sylw i'r manylion. Felly, ychydig iawn o werth a ychwanegodd y rhain i asesiad a chynllunio.

Roedd hi'n anodd gweld llais y diodefwr mewn cynlluniau i reoli risg o niwed. Yn y mwyafrif o achosion, roedd hi'n bwysig gwneud cynlluniau i gadw diodefwyr yn ddiogel; rhoddodd y cynllunio ddigon o ystyriaeth i ddiodefwyr mewn ychydig dros hanner y rhain. Roedd angen amddiffyn plant mewn tri chwarter yr achosion y buom yn edrych arnynt; roedd hyn wedi derbyn digon o ystyriaeth mewn 37% o'r rhain. Ychydig iawn o wybodaeth oedd ar gofnod achosion am fesurau rheoli allanol, megis gorchymynion atal. Yn rhy aml, nid oedd swyddogion cyfrifol yn ymwybodol a oedd mesurau o'r fath ar waith. Roeddent yn eu hystyried nhw'n rhan o'u strategaeth i ddiogelu diodefwyr neu fonitro cydymffurfriad mewn oddeutu hanner yr achosion perthnasol. Roedd gan Weithwyr Cyswllt Partner wybodaeth eang am fesurau amddiffynnol a, lle'r oedd ganddynt y gallu i wneud hynny, roeddent yn cefnogi diodefwyr i

²⁴ Gwelwch droednodyn 19

wneud cais am y rhain. Nid oedd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol bob amser yn cyfrannu at amodau trwydded, ond yn yr 17 achos lle'r oeddent wedi gwneud hynny, roeddent wedi cynnig mesurau i ddiogelu dioddfwyr mewn 13 ohonynt.

Esiampl o arfer gwael:

Cafodd Charlie ei ddedfrydu i orchymyn cymunedol am ymosod ar ei bartner. Nid oedd manylion am ei blant ar gofnod nac unrhyw esboniad pam fod cysylltiad wedi'i gyfyngu ag un o'i feibion. Ni wnaethpwyd unrhyw wiriadau diogelu gyda gofal cymdeithasol plant.

Cafodd Charlie ei eithrio o gartref y teulu am gyfnod o fisoedd, eto datgelodd berthynas barhaus gyda'r dioddefwr. Nid oedd y swyddog cyfrifol wedi archwilio ymhle'r oedd cysylltiad yn digwydd er mwyn sicrhau nad oedd y rheolau'n cael eu torri ynghylch y parth eithrio neu a oedd y cysylltiad yma wedi dod â Charlie i gysylltiad gyda'r plant. Roedd tystiolaeth i ddangos bod Charlie wedi dychwelyd i gartref y teulu. Pan esboniodd yn ddiweddarach bod ganddo gyfrifoldebau gofal plant oedd yn ei atal rhag mynd i'w BBR, caniatodd y Cwmni Adsefydlu Cymunedol iddo adael y cwrs.

Ni chymerodd ei swyddog cyfrifol unrhyw gam i hysbysu gofal cymdeithasol plant am yr amgylchiadau newidiol yn yr achos neu i gysylltu gyda'r heddlu i fflagio'r eiddo ar gyfer galwadau i'r heddlu ddod allan. Nid oedd unrhyw ymweliadau cartref i asesu amgylchiadau cartref Charlie neu i wirio diogelwch ei bartner neu blant. Roedd Charlie mewn perygl o fethu â chwblhau'r gwaith i leihau ei risg o niwed ac roedd y Cwmni Adsefydlu Cymunedol wedi gadael ei ddiodefwr a'i phlant heb eu diogelu.

Gwaith i ddiogelu dioddefwyr

Roedd rhai swyddogion cyfrifol yn frwdfrydig ynghylch y Cynllun Datgelu Trais Domestig (a elwir yn Ddeddf Clare)²⁵ ac roeddent yn cyfeirio achosion at eu panel Cyfraith Claire lleol. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid oeddent yn deall y rhwymedigaethau a'r cyfleoedd a ddaw gyda'r ddeddfwriaeth i helpu i ddarparu diogelwch ar unwaith i ddiodefwr.

Ystyriwyd gwaith gyda'r diodefwr a rheoli troseddwr yn ffrydiau gwaith arwahanol. Nid oedd swyddogion cyfrifol yn ymateb yn gyson ac yn weithredol i wybodaeth a ddarperir gan hyrwyddwyr rhaglenni neu weithwyr cyswllt partner sy'n ymwneud â risg o niwed i ddiodefwr. Mewn rhai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, yn enwedig mewn swyddfeydd lle roedd swyddogion cyfrifol a gweithwyr cyswllt partner wedi eu lleoli ynghyd, roedd y berthynas rhwng y ddau a chydlynid y gwaith yn fwy effeithiol.

Roedd lefel a natur y cysylltiad gydag unigolion yn ddigonol i helpu i ddiogelu diodefwr a phlant mewn 55% o achosion. Er bod y mwyafrif o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn ystyried ymweliadau â'r cartref yn agwedd hanfodol o'r gwaith gyda phobl sy'n cyflawni camdriniaeth domestig ar lefel strategol, roeddent, yn rhy aml, yn ystyried yr ymweliadau hyn yn bethau moethus ar lefel ymarferol. Roedd rhai swyddogion cyfrifol heb ddeall y gwerth yr oedd ymweliadau â'r cartref yn ei ychwanegu at ddiogelu diodefwr a phlant, ond roedd eraill yn amlwg yn flin nad oeddent wedi cael amser i ymweld ac asesu'r amgylchiadau yn y cartref. Yn

²⁵ Mae hwn, a gyflwynwyd yn 2014, yn rhoi set o weithdrefnau i'r heddlu (gan ddefnyddio eu pwerau presennol) i ddarparu gwybodaeth i unigolion, lle bo'n briodol am droseddau ymosodgar blaenorol a wnaed gan eu partner.

yr achosion lle dylent fod wedi cael ymweliad cartref, dim ond mewn 19% o'r achosion y gwnaethpwyd hyn.

Roedd swyddogion cyfrifol wedi myfyrio ar eu penderfyniadau, a diweddarau eu penderfyniadau, am y risg o niwed a sut i ymdrin â hyn mewn dim ond 34% o achosion. Nid oeddent yn cronni'r wybodaeth oedd ar gael iddynt i asesu dangosyddion bod risg o niwed yn barhaus neu'n gwaethygu, ac roedd rheolwyr yn methu adnabod hyn neu wella hyn. Mewn rhai achosion, arweiniodd hyn at fethiant i gymryd camau hanfodol i ddiogelu dioddefwyr, ac yn arbennig plant. Achosodd rhai o'r diffygion yma mewn barn a gweithredu i ni fod yn hynod bryderus ac aethom ati i ofyn am gamau adferol ar unwaith mewn saith o achosion.

4.2. Casgliadau a goblygiadau

Yn gyffredinol, roedd y gwaith i ddiogelu dioddefwyr a phlant yn wael. Nid oedd y flaenoriaeth uchel a roddwyd i ddioddefwyr a phlant ar lefel strategol mewn rhai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i'w gweld mewn gweithredoedd. Nid oedd swyddogion cyfrifol yn gwneud digon i ddeall y perygl i ddioddefwyr a phlant, ac roedd hynny'n digwydd weithiau oherwydd eu diffyg goruchwyliaeth ar reolaeth a gwybodaeth. O ganlyniad, nid oeddent yn gwneud penderfyniadau effeithiol ynglŷn â sut i'w diogelu nhw. Roedd rhywfaint o'u gwaith i ddiogelu dioddefwyr, ac yn enwedig plant, yn destun pryder mawr.

Roedd Gweithwyr Cyswllt Partner yn gweithio'n galed i gyflawni amcanion eu rôl ac yn cymryd camau'n rhagweithiol i ymdrin â risg o niwed. Fodd bynnag, roedd prinder adnoddau a diffyg cysylltiadau effeithiol gyda swyddogion cyfrifol wedi lleihau eu gallu i gefnogi a helpu i ddiogelu dioddefwyr a phlant.

5. Gweithio mewn partneriaeth

Yn y bennod hon rydym yn adrodd ar ansawdd ymgysylltiadau Adsefydlu Cymunedol gyda mentrau partneriaeth strategol, a threfniadau asiantaethau niferus megis Cynhadledd Aml-asiantaeth i Asesu Risgiau (MARAC). Rydym hefyd yn amlinellu pa mor dda y gweithiodd ymarferwyr Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol gydag asiantaethau eraill i leihau cam-drin domestig a diogelu dioddefwyr a phlant.

5.1. Yr hyn a welsom

Roedd y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn gweithio'n dda gyda'u partneriaid ar lefel strategol, gan chwarae rolau gweithredol yng ngwaith y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (PCC) a grwpiau a arweinir gan yr awdurdod lleol.

Esiaml o arfer da: gweithio gyda phartneriaid i leihau camdriniaeth domestig yn Surrey

Yn Surrey, roedd y Cwmni Adsefydlu Cymunedol wedi gweithio gyda'i grŵp partneriaid Comisiynydd Heddlu a Throsedd i ystyried y ffordd orau o ymdrin ag ymddygiadau cam-drin domestig cyn iddynt godi i lefel trosedd. Yn rhan o hyn, maent yn hyrwyddo'r rhaglen, Stepping Up, y gall ystod o asiantaethau gyfeirio ati, a chasglu adborth dioddefwyr yn rhan o broses werthuso sy'n cael ei chwblhau gydag academyddion arbenigol.

Roedd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn gyfranogwyr gweithredol ac arferol mewn Cynadledau Aml-asiantaeth i Asesu Risgiau; roeddent yn cadeirio rhai a, lle'r oedd eu hachosion yn cael eu trafod, roeddent yn cyfrannu'n effeithiol. Roedd gan rai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol systemau effeithiol i sicrhau bod swyddogion cyfrifol yn derbyn gwybodaeth achosion perthnasol gan Gynhadledd Aml-asiantaeth i Asesu Risgiau.

Fodd bynnag, roedd nifer o swyddogion cyfrifol heb glywed ac heb dderbyn yr arweiniad a'r gefnogaeth i ddeall manteision llawn trefniadau Cynhadledd Aml-asiantaeth i Asesu Risgiau. Dim ond cyfran fechan o achosion perthnasol oedd wedi eu pennu ac y cyfeiriwyd atynt gan y Cwmni Adsefydlu Cymunedol i Gynhadledd Aml-asiantaeth i Asesu Risgiau neu'r cynghorwyr trais domestig annibynnol (IDVA) lleol. Nid oedd swyddogion cyfrifol yn gwybod a oedd achos wedi'i drafod gan y Gynhadledd Aml-asiantaeth i Asesu Risgiau, ac nid oeddent yn gwybod a oedd nodiadau cyfarfodydd y Gynhadledd Aml-asiantaeth i Asesu Risgiau wedi'u cofnodi yn eu swyddfa neu ymhle fyddai'r rhain. Nid oeddent yn deall y byddai Cynhadledd Aml-asiantaeth i Asesu Risgiau yn ystyried atgyfeiriadau pellach os byddai'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol neu asiantaethau eraill yn canfod pryderon newydd neu rai sy'n cynyddu.

Esiampl o arferion da: gwella arferion diogelu yn Leeds

Yn Leeds, mae'r Bartneriaeth Diogelwch y Gymuned yn arwain yr ymateb amlasiantaeth i gam-drin domestig. Yn rhan o'r dull partneriaeth yma, roedd y Gynhadledd Aml-asiantaeth i Asesu Risgiau (MARAC) wedi'i chyfuno â'r ganolfan ddiogelu. Galwyd cyfarfodydd amlasiantaeth yn ddyddiol i adolygu pob galwad allan i'r heddlu am gam-drin domestig ac atgyfeiriadau gan asiantaethau yn ystod y 24 awr blaenorol. Roedd hyn yn caniatáu asesiad ar y cyd gan yr asiantaethau ar unwaith, y cynllunio a'r gweithredu i gael ei wneud i ddiogelu dioddefwyr ac i asiantaethau ddeall rolau ei gilydd. Roedd y Cwmni Adsefydlu Cymunedol wedi dyrannu adnoddau sylweddol i hyn ac yn cefnogi llif y cyfathrebu mewnol a'r camau gweithredu drwy gydlynwyr achos ymroddedig.

Gwelsom broblemau gydag arferion y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol oedd yn ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Mae dwy o'r rhain wedi eu hamlinellu uchod: y prinder atgyfeiriadau BBR ac ansawdd yr asesiadau risg gan rai timau llysoedd. Gwelsom hefyd rai achosion a ddylai fod wedi cael eu dychwelyd at y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar unwaith ar ôl eu dyrannu i'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol neu eu symud ymlaen i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar ôl canfod dangosyddion o risg uwch o niwed. O'r saith achos yr oeddem yn ystyried y cam hwn yn briodol ar eu cyfer, dim ond un oedd wedi cael ei symud ymlaen i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Roedd hi'n glir nad oedd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn hyderus y byddai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn derbyn achosion perthnasol, ac roedd hyn yn eu hatal nhw rhag rhoi cynnig arni.

Esiampl o arfer gwael:

Cafodd Graham ei ryddhau o'r carchar gydag amod ar ei drwydded i beidio cysylltu â'i ddioddefwr na menyw arall. Roedd ganddo hanes hir o gam-drin domestig, cafodd ei reoli yn y gorffennol gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, ac roedd ar fechnïaeth ar y pryd am ladrata a thrais ac esgleuso mab ei gyn-bartner. Roedd mewn cysylltiad gyda'i fab ei hun. Gofynnodd y swyddog cyfrifol am gyngor gan ei rheolwr ynghylch y posibilrwydd o ddychwelyd yr achos i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ond dywedwyd wrthi na fyddai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn derbyn achos lle na chafwyd euogfarn eto am anaf i blant. Parhaodd y Cwmni Adsefydlu Cymunedol i reoli'r achos ond methodd ag ymdrin â'r ystod o faterion cymhleth yr oedd yn eu cyflwyno, ac roedd rhai o'r rhain angen cyfathrebu penderfynol gyda phartneriaid amharod.

Roedd swyddogion cyfrifol yn tueddu gweithio ar eu pennau eu hunain wrth asesu a chynllunio sut i weithio gyda'r unigolion yr oeddent yn eu goruchwylio. Roeddent yn gwella eu hasesiadau gyda gwybodaeth gan asiantaethau eraill mewn 49% o'r achosion ac yn cynnwys gwaith partneriaid yng nghynlluniau Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol mewn 36% o achosion.

Roedd rhai o'r achosion mwy cymhleth yn haeddu triniaeth amlasiantaethol, ond hyd yn oed pan oedd achosion yn cael eu rheoli drwy IOM, ychydig iawn o dystiolaeth oedd yng nghofnodion y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol o wneud penderfyniadau ar y cyd mewn achosion unigol. Roedd swyddogion cyfrifol wedi monitro cydymffurfriad unigolion gyda mesurau rheoli megis parthau eithrio a gorchmynion atal, ac wedi rhannu'r wybodaeth berthnasol am hyn gydag asiantaethau partner, mewn 41% o achosion. Yn aml iawn roeddent yn trosglwyddo'r holl gyfrifoldeb am fonitro a gorfodi'r mesurau hyn i'r heddlu heb ystyried y manteision a allai ddod gydag agwedd gydlynol.

Rydym yn disgwyl i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gychwyn gwiriadau o gam-drin domestig gyda'r heddlu ymhob achos ar y pwynt pan fo'r llys yn rhoi gorchymyn am adroddiad cyn-dedfrydu. Dylai'r gwiriadau hynny, ac ymatebion gan yr heddlu, gael eu cofnodi'n glir ar nDelius. Os nad yw'r gwiriadau wedi cael eu gwneud, neu os nad oes ateb wedi'i dderbyn erbyn y bydd yr achos wedi'i ddyranu, rydym yn disgwyl i'r swyddog cyfrifol (y Cwmni Adsefydlu Cymunedol neu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol) fynd ar ôl y gwaith yma. Yn bennaf, roedd y swyddogion cyfrifol wedi gwneud gwiriadau priodol gyda'r heddlu a gofal cymdeithasol plant ar ddechrau gorchymyn neu drwydded. Fodd bynnag, roeddent yn aml heb fynd ar ôl gwybodaeth yr oeddent wedi gofyn amdani, heb ofyn am ddiweddariadau neu heb weithredu ar wybodaeth am berthnasau newydd.

Gwnaethpwyd gwiriadau diogelu plant fel y bo raid drwy gydol y ddedfryd mewn 47% o achosion, a cheisiadau am wybodaeth ynghylch galwadau i'r heddlu i ddod allan mewn dim ond 31% o achosion. Roedd y rhain yn gadael diffygion yng ngallu'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i wneud penderfyniadau effeithiol drwy gydol yr achos. Mewn rhai o ardaloedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, roedd yr heddlu wedi'i chael hi'n anodd darparu'r adnoddau ar gyfer y ceisiadau parhaus am wybodaeth gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol. Roedd hi'n bleser gennym weld gweithredu lleol i ymdrin â hyn a datblygu protocolau, y darparwyd yr adnoddau am rai ar y cyd, i gynyddu'r llif gwybodaeth rhwng y Cwmni Adsefydlu Cymunedol a'r heddlu.

Esiampl o arfer gwael:

Cafodd Jacob ei ddedfrydu i orchymyn cymunedol gyda gofyniad i gwblhau BBR. Cwblhawyd gwiriadau diogelu cychwynnol oedd yn dangos bod ei blentyn yn cael ei asesu gan ofal cymdeithasol plant. Ni wnaeth y swyddog cyfrifol gyfeiriad at BBR nac at y Gweithiwr Cyswllt Partner, ac nid oedd mesurau allanol, megis gorchymyn atal, yn eu lle i ychwanegu diogelwch.

Yn dilyn y dedfrydu, symudodd Jacob yn ôl i fyw gyda'i bartner, sef dioddefwr y camdriniaeth domestig, a'u plentyn. Nid oedd y Cwmni Adsefydlu Cymunedol wedi gwneud unrhyw gysylltiad pellach gyda gofal cymdeithasol plant, naill ai i rannu'r wybodaeth hon neu i ganfod canlyniad yr asesiad o anghenion diogelu'r plentyn.

Canfuwyd bod cysylltiad rhwng alcohol ac ymddygiad cam-drin domestig Jacob, ac roedd ei gydymffurfriad gyda'i ddedfryd yn afreolaidd. Fodd bynnag, ers y gwiriadau cychwynnol, nid oedd y swyddog cyfrifol wedi cwblhau unrhyw wiriadau o alwadau ar yr heddlu i ddod allan at gam-drin domestig. Nid oedd y dystiolaeth yn cefnogi asesiad y swyddog cyfrifol ei hun bod y plentyn yn yr achos hwn dan risg isel o niwed gan y tad. Roedd y swyddog cyfrifol wedi gadael y dioddefwr a'i phlentyn heb ddiogelwch i bob pwrpas.

Roedd llawer o swyddogion cyfrifol yn wael am herio penderfyniadau gofal cymdeithasol plant i gau achosion, gan ymddiried bod gweithwyr cymdeithasol yn gwybod orau. Ar y llaw arall, roedd esiamplau lle'r oedd swyddogion cyfrifol yn gweithio'n hyderus gyda gofal cymdeithasol plant mewn partneriaethau rhagweithiol ac effeithiol.

Roedd rhai sefydliadau, megis Shelter, yn darparu gwasanaeth defnyddiol oedd yn ateb anghenion penodol unigolion pan gawsent eu rhyddhau o'r ddalfa. Fodd bynnag, roedd diffyg undod a chydweithio yn aml iawn rhwng y Cwmni Adsefydlu Cymunedol a darparwyr/asiantaethau partner fel nad oedd swyddogion cyfrifol bob amser yn gwybod a oedd unigolion yn cymryd rhan yn yr ymyriadau oedd wedi cael eu cynllunio iddynt. Roedd hyn yn

fwyaf nodedig gydag asiantaethau camddefnyddio sylweddau a chanolfannau menywod, oedd heb gael mynediad i systemau rheoli achosion y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

Roedd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn gweithio'n dda gyda'r heddlu mewn ardaloedd lle'r oedd trefniadau Rheoli Troseddwy'r Integredig yn cynnwys achosion cam-drin domestig. Gwelsom esiamplau lle'r oedd hyn wedi helpu llif y cyfathrebu am risg parhaus o niwed i ddiodefwyr, yn cynnwys gwybodaeth am alw'r heddlu allan i achosion o gam-drin domestig; ymweliadau ar y cyd â chartrefi; a dull cydlynol o fonitro mesurau diogelu megis gorchmynion atal.

5.1. Casgliadau a goblygiadau

Roedd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn gweithio'n dda gyda phartneriaethau strategol i ehangu'r ystod o ymyriadau a gwasanaethau sydd ar gael. Roeddent yn aelodau gweithredol o Gynadleddau Aml-asiantaeth i Asesu Risgiau (MARAC) a threfniadau Rheoli Troseddwy'r Integredig, oedd yn helpu Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i ddeall a chyfranogi mewn cynlluniau partneriaeth i leihau aildroseddu a diogelu diodefwyr a phlant.

Roedd ansawdd y gwaith partneriaeth ar lefel ymarferol yn amrywiol. Roedd y gallu gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol i weithio ar y cyd yn effeithiol gydag asiantaethau partner. Fodd bynnag, yn aml iawn nid oedd digon o gyfathrebu rhwng swyddogion cyfrifol ac ymarferwyr mewn asiantaethau eraill i ddiogelu diodefwyr a phlant, neu i sicrhau bod unigolion yn cymryd rhan mewn ymyriadau priodol.

Roedd swyddogion cyfrifol yn dibynnu'n ormodol ar benderfyniadau a wnaed gan eu partneriaid am risg o niwed a'r angen i ddiogelu plant. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n llai tebygol y byddent yn gwneud y penderfyniadau cywir ynglŷn â sut i reoli eu hachosion. Mewn rhai achosion, roedd hyn wedi arwain at sefyllfa lle'r oedd achosion wedi aros gyda'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol pan ddylent fod wedi cael eu dychwelyd neu eu symud ymlaen i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

Cyfeirnodau

Anderson, C a Warburton, W.(2015) 'On the Clinical Applications of the General Aggression Model to Understanding Domestic Violence, yn Javier, R. A. a Herron, W. G. (gol) Understanding Domestic Violence: Theories, Challenges, Remedies. Rowman & Littlefield Publishers, Inc: <https://public.psych.iastate.edu/caa/abstracts/2015-2019/15WA-2.pdf>.

Bates, E. A., Graham-Kevan, N., Bolam, L. T. a Thornton, A. J. V. (2017) 'A Review of Domestic Violence Perpetrator Programs in the United Kingdom', Partner Abuse, cyfrol 8, rhif 1, 2017.

Bloomfield, S. a Dixon, L. (2015) 'An Outcome Evaluation of the Integrated Domestic Abuse Programme (IDAP) and the Community Domestic Violence Programme (CDVP)', Crynodeb Dadansoddol NOMS.

Bullock, K., Sarre, S., Tarling, R. a Wilkinson, M. (2010) 'The delivery of domestic abuse programmes: An implementation study of the delivery of domestic abuse programmes in probation areas and Her Majesty's Prison Service', Cyfres Ymchwilio'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, 15/10, Gorffennaf 2010.

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (2004) Adroddiad Thematig Rhaglen Arolygu Goruchwyliaeth Effeithiol. Lleihau Cam-drin Domestig. Arolygiad o waith y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gyda phobl sy'n cyflawni trais domestig.

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.(2017) Lefel Gwasanaeth 011: Darparu Gofyniad y Rhaglen gan Contractiwr.

Y rhaglen Rhyddid <http://www.freedomprogramme.co.uk/>.

Llywodraeth EM (2012) 'Call to End Violence against Women and Girls: Taking Action – the next chapter',

Y Swyddfa Gartref (2018) Trais a cham-drin domestig: diffiniad newydd: www.gov.uk/guidance/domestic-violence-and-abuse#domestic-violence-and-abuse-new-definition.

Jewell, L. M. a Wormith, J. S. (2010) 'Variables associated with attrition from domestic violence treatment programs targeting male batterers: A meta-analysis', Cyfiawnder ac Ymddygiad Troseddol cyf. 37, rhif 10, Hydref 2010, 1086–1113.

Kelly, L. a Westmarland, N. (2015) 'Domestic Violence Perpetrator Programmes: Steps Towards Change. Project Mirabal final report', Prifysgol Durham a Phrifysgol Metropolitan Llundain.

Ofsted, HMICFRS, Arolygiaeth Prawf EM, y Comisiwn Ansawdd Gofal (2017) 'The multi-agency response to children living with domestic abuse: prevent, protect and repair', Rhif Cyfeirio: 170036: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/680671/JTAI_domestic_abuse_18_Sept_2017.pdf.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2017), Ystadegau Llwyth Achosion Rheoli Troseddwyr: <https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-october-to-december-2017>.

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2016) Gweddnewid Adsefydliad. HC 951. Sesiwn 2015-16: <https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/Transforming-rehabilitation.pdf>.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2017) Crynhoad y Gwasanaeth Cenedlaethol i Reoli Troseddwy (NOMS) 2016/17, <https://www.gov.uk/government/statistics/annual-national-offender-management-service-digest-2016-to-2017>:

a thablau ategol ac offeryn data'r tîm amlddisgyblaethol:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/686135/supplementary-tables-mdt-data-tool.zip.

NOMS (2016) Canllawiau am Weithio gyda Cham-drin Domestig.

Uned Rhaglenni Adsefydlu Grŵp Ymyriadau a Gwasanaethau Gweithredol NOMS (2015) Building Better Relationships; Llawlyfr y Gweithiwr Cyswllt Partner (PLW). Fersiwn 1.0.

Uned Rhaglenni Adsefydlu Grŵp Ymyriadau a Gwasanaethau Gweithredol NOMS (2015) Llawlyfr Hwyluso'r rhaglen Building Better Relationships. Fersiwn 1.0.

Uned Rhaglenni Adsefydlu Grŵp Ymyriadau a Gwasanaethau Gweithredol NOMS (2015) Llawlyfr Theori'r rhaglen Building Better Relationships. Fersiwn 1.0.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017) 'Domestic abuse in England and Wales: year ending March 2017':

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/domesticabuseinenglandandwales/yearendingmarch2017>.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018) 'Crime in England and Wales: year ending March 2018', Bwletin Ystadegol:

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingmarch2018>.

Palmer, E. J. a Humphries, L. M. (2016) 'Differences between completers and non-completers of offending behaviour programmes: Impulsivity, social-problem solving, and criminal thinking', Seicoleg Gyfreithiol a Throseddegol, 21, 407–416.

Powis, B.(2002) 'Offenders' risk of serious harm: a literature review', i'r Uned Troseddwy a Chywiriad, Ymchwil y Swyddfa Gartref, y Gyfarwyddiaeth Ddatblygu ac Ystadegau:

http://nomsintranet.org.uk/roh/official-documents/HomeOfficeRDS_OP81.pdf.

Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2017) 'Majority of women in prison have been victims of domestic abuse': <http://www.prisonreformtrust.org.uk/PressPolicy/News/vw/1/ItemID/494>.

SafeLives (2017) 'Insights Idva England and Wales dataset 2016-17: Adult independent domestic violence advisor (Idva) services'

Schucan-Bird, K., Vigurs, C., Quy, K. a Gough D. (2016) 'No. 3 Criminal Justice Interventions with perpetrators or victims of domestic violence: a systematic map of the empirical literature', What Works: Cyfres Adolygu Systematig o Leihau Troseddu, Y Coleg Plismona.

Skyner, D. a Waters, J. (1999) 'Working with perpetrators of Domestic Violence to Protect Women and Children: A partnership between Cheshire Probation Service and the NSPCC', Yr Adolygiad o Gam-drin Plant, cyfrol 8, 46–54.

Steel, N., Blakeborough, L. a Nicholas, S. (2010) 'Supporting high-risk victims of domestic violence: a review of Multi-Agency Risk Assessment Conferences (MARACs)', Adroddiad Ymchwil y Swyddfa Gartref 55.

Vigurs, C., Schucan-Bird, K., Quy, K. a Gough, D. (2016) 'No. 5 The impact of domestic violence perpetrator programmes on victim and criminal justice outcomes: A systematic review of reviews of research evidence', What Works: Cyfres Adolygu Systematig o Leihau Troseddu, Y Coleg Plismona.

Atodiad 1: Rhestr Termau

Rhaglen achrededig	Rhaglen o waith a ddarparwyd i droseddwr mewn grwpiau neu'n unigol drwy ofyniad mewn gorchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiiredig, neu ran o ddedfryd carcharol neu amod ar drwydded carchar. Mae rhaglenni achrededig yn cael eu hachredu gan y Panel Achrededig Gwasanaethau Cywirol fel rhai sy'n effeithiol o ran lleihau y tebygolrwydd o aildroseddu
Dyraniad	Y broses a ddilynir i benderfynu a fydd troseddwr yn cael ei oruchwylio gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu Gwmni Adsefydlu Cymunedol
Building Better Relationships (BBR)	Mae BBR yn rhaglen waith grŵp a achredir yn genedlaethol sydd wedi'i llunio i leihau aildroseddu gan ddynton sy'n cyflawni trais ar bartneriaid agos
Diogelu Plant	Gwaith i sicrhau bod yr holl gamau rhesymol wedi'u cymryd i gadw'r risg mor isel ag sy'n bosibl y gallai plentyn gael niwed.
Cwmni Adsefydlu Cymunedol	Cwmni Adsefydlu Cymunedol
Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi	Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HNPPS): yr unig asiantaeth sy'n gyfrifol am y gwasanaethau carchardai a phrawf. Gwelwch isod y nodyn am NOMS
IDVA	Cynghorwyr trais domestig annibynnol: sy'n rhoi cymorth i ddiodefwr camdriniaeth domestig sy'n byw yn y gymuned ac yn cael eu hasesu fel pobl sydd o dan risg uchel o gam-drin domestig pellach
Rheoli Troseddwr Integredig (IOM)	Mae Rheolaeth Troseddwr Integredig yn dod ag ymateb gan yr amrywiol asiantaethau i'r bygythiadau o droseddu ac aildroseddu a wynebwr gan gymunedau lleol. Mae'r troseddwr mwyaf parhaus a phroblematig yn cael eu pennu a'u rheoli ar y cyd gan asiantaethau partner sy'n cydweithio
LDU	Uned Darparu Lleol
MASH	Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth sef y man cysylltu cyntaf ar gyfer ymholiadau neu bryderon newydd ynghylch diogelu. Maent fel arfer yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol (gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ac oedolion), yr heddlu, cyrff iechyd, prawf ac asiantaethau eraill
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
nDelius	National Delius: y system rheoli achosion cymeradwy a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol yng Nghymru a Lloegr
NOMS	Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr: hyd fis Ebrill 2017, yr unig asiantaeth oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf, erbyn hyn yr

	enw arno yw Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS).
Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol: gwasanaeth cenedlaethol unigol a ddaeth i fodolaeth ym mis Mehefin 2014. Ei rôl yw darparu gwasanaethau i lysoedd a rheoli grwpiau penodol o droseddwr, gan gynnwys y rheiny sy'n cyflwyno risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol a'r rheiny sy'n atebol i Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd
Systemau Asesu Troseddwr	Defnyddir yr OASys neu'r system asesu troseddwr ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol i fesur risgiau ac anghenion troseddwr o dan oruchwyliaeth
Partneriaid	Mae partneriaid yn cynnwys mudiadau statudol ac anstatudol, sy'n gweithio gyda'r cyfranogwr/troseddwr drwy gytundeb partneriaeth Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol
Gweithiwr Cyswllt Partner	Gweithiwr Cyswllt Partner (PLW) (a elwid yn y gorffennol yn Weithiwr Diogelwch Merched (WSW)). Mae'r Gweithiwr Cyswllt Partner yn chwarae rôl hanfodol mewn BBR, gan ddarparu gwasanaeth i helpu i amddiffyn a chefnogi dioddefwyr a'u plant
Darparwyr	Mae darparwyr yn darparu gwasanaeth neu gyfraniad wedi'i gomisiynu gan, a'i ddarparu o dan contract i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol. Mae hyn yn cynnwys y staff a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu o dan y contract, hyd yn oed pan maent wedi'u hintegreiddio neu eu lleoli yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol
Swyddog Prawf	Swyddog Prawf: dyma'r term am swyddog cyfrifol 'cymwysedig' sydd wedi gwneud cwrs wedi'i seilio mewn addysg uwch am ddwy flynedd. Mae enw'r cymhwyster a chynnwys yr hyfforddiant yn amrywio yn dibynnu pryd y cafodd ei gyflawni. Maent yn rheoli achosion mwy cymhleth. Mewn Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol fe allent gael gwahanol deitlau, megis uwch reolwr achos, ond maent yn gweithio ar y raddfa hon
Swyddog y Gwasanaeth Prawf	Swyddog y Gwasanaeth Prawf: dyma'r term am swyddog cyfrifol a oedd wedi'i recriwtio'n wreiddiol heb gymhwyster. Gallent gael gafael ar hyfforddiant sydd wedi'i bennu'n lleol i 'gymhwyso' fel swyddog gwasanaethau prawf neu i adeiladu ar hyn i gymhwyso fel swyddog prawf. Gallent reoli'r holl achosion heblaw'r mwyaf cymhleth yn dibynnu ar eu lefel o hyfforddiant a phrofiad. Mae rhai swyddogion y gwasanaeth prawf yn gweithio yn y llys, lle mae eu dyletswyddau'n cynnwys ysgrifennu adroddiadau cyn dedfrydu. Mewn Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol efallai bod ganddynt deitlau gwahanol, megis rheolwr achos, ond maent yn gweithio ar y raddfa hon

Gofynion Gweithredoedd Adsefydlu (RAR)	O fis Chwefror 2015, pan roddwyd y Ddeddf Adsefydlu Troseddwr ar waith, gall y llysoedd bennu'r nifer o ddiwrnodau Gofyniad Gweithredoedd Adsefydlu o fewn gorchymyn; lle'r gwasanaethau prawf yw hi i benderfynu ar yr union waith sydd i gael ei wneud yn ystod diwrnodau Gofyniad Gweithredoedd Adsefydlu penodol
Y swyddog cyfrifol	Y Swyddog Prawf neu'r Swyddog Gwasanaeth Prawf sy'n gyfrifol am reoli'r achos
Y Rhaglen Sgiliau Meddwl (TSP)	Rhaglen grŵp achrededig wedi'i llunio i ddatblygu sgiliau meddwl troseddwr i'w helpu i gadw allan o drafferth

Atodiad 2: Methodoleg

Rhan un: Gwaith maes o flaen llaw

1. Adolygiad o waith ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol am 'yr hyn sy'n gweithio' gyda cham-drin domestig
2. Casgliad o'r data cenedlaethol a'r data gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi am gam-drin domestig ac ymyriadau
3. Pennu a dadansoddi contractau ac amserlenni, polisïau ac arweiniad Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yr Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi
4. Trafodaethau o fewn y cyd-destun gyda rheolwyr yr Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi
5. Chwilio drwy arolygiadau ac archwiliadau blaenorol yn ymwneud â cham-drin domestig
6. Arolwg a weithredwyd i helpu i gael trosolwg cychwynol o'r mathau o ymyriadau yr oedd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn eu darparu i bobl a gyflawnodd gam-drin domestig, sut roedd y bobl yma'n cael eu canfod, y gwaith oedd yn digwydd gyda dioddefwyr cam-drin domestig, gwaith partneriaeth ac unrhyw gryfderau neu feysydd i'w gwella mewn perthynas â cham-drin domestig. Cafwyd ymateb gan gyfanswm o 10 Cwmni Adsefydlu Cymunedol o gyfanswm posibl o 21, gan roi cyfradd ymateb o ychydig llai na 50%.
7. Arolygiad peilot a gynhaliwyd yn Norwich gan Gwmni Adsefydlu Cymunedol Norfolk a Suffolk (dan berchnogaeth Sodexo) i brofi ein hoffer a'n methodoleg ar gyfer gwneud arolygiadau thematig cam-drin domestig. Digwyddodd hyn ym mis Mawrth 2018.

Rhan dau: Maes gwaith arolygiadau

Roedd y gwaith maes arolygiadau'n cynnwys ymweliadau â phump ardal ym misoedd Ebrill a Mai 2018, gan ymdrin â chymysgedd o ardaloedd metropolitaidd, trefol a gwledig. Cafodd pump o'r wyth cwmni sy'n berchen ar Gwmni Adsefydlu Cymunedol eu cynrychioli, fel y gwelwch isod:

Y ffocws mewn asesiadau achos	Uned Darparu Lleol	Cwmni Adsefydlu Cymunedol	Perchennog Cwmni Adsefydlu Cymunedol
Swydd Gaerlŷr	Swydd Gaerlŷr	Swydd Derby, Swydd Gaerlŷr, Swydd Nottingham a Rutland	Y Bartneriaeth Lleihau Aildroseddu (yn cynnwys Ingeus UK, Change Grow Live ac Ymddiriedolaeth St Giles)
Leeds	Uned Darparu Lleol Leeds	Gorllewin Swydd Efrog	Purple Futures (partneriaeth wedi'i harwain gan Interserve)
Surrey	Surrey a Sussex	Caint, Surrey a Sussex	Seetec
De Ddwyrain Swydd Gaerhirfryn	De Ddwyrain Swydd Gaerhirfryn	Cumbria a Swydd Gaerhirfryn	Gwasanaethau Cyfiawnder Sodexo, mewn partneriaeth â Nacro
Wrecsam a'r Fflint	Gogledd Cymru	Cymru	Working Links (gyda chwmni cydfuddiannol staff prawf)

Roedd y gwaith maes yn cynnwys:

1. Asesiad o 112 o achosion; mewn 100 o'r rhain rhesom gyfweiliad i'r swyddog cyfrifol ac mewn 8 rhesom gyfweiliad i'r rheolwr. Rhesom gyfweiliad i 62 o wahanol bobl yn ystod ein hasesiadau achos. Gwnaethpwyd pedwar o'r cyfweiliadau yn y Gymraeg.
2. Gwnaethom y cyfweiliadau a ganlyn:
 - 24 gyda rheolwyr uwch a chanolradd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, yn canolbwyntio ar ardaloedd megis strategaeth, ymyriadau a rhaglenni cam-drin domestig, ansawdd yr arfer a'r perfformiad, comisiynu a diogelu a phartneriaethau
 - 17 gydag aelodau o dimau darparu rhaglenni
 - wyth gyda Gweithwyr Cyswllt Partner a'u rheolwyr
 - pedwar uwch-reolwr contract o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi
 - pedwar cynrychiolydd o'r heddlu i drafod Rheoli Troseddwyr Integredig, Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth (MASH), Cynadleddau Aml-asiantaeth i Asesu Risgiau (MARAC), cam-drin domestig a diogelu'r cyhoedd
 - cyfweiliadau ad hoc gyda phartneriaid, darparwyr a gweinyddwyr
3. Aethom ati i hyrwyddo grwpiau ffocws gyda:
 - 14 rheolwr canolradd
 - 23 swyddog cyfrifol
 - 30 defnyddiwr gwasanaeth
4. Gwnaethom arsylwadau o arferion mewn perthynas â:
 - Gofynion Gweithredoedd Adsefydlu cam-drin domestig
 - cyfarfod bore MARAC/MASH yn Leeds
 - ADAPT – cyfarfod y bartneriaeth cam-drin domestig yn Swydd Gaerlŷr
 - BBR (arsylwi DVD/monitro byw)

Aethom ati i siarad gyda thîm polisi cam-drin domestig y Weinyddiaeth Gyfiawnder a gwnaethom gyfweiliadau gyda rheolwyr contract Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, a thimau adferiad a sicrhad, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi Cymru ac arweinydd polisi cyflawnwyr cam-drin domestig Llywodraeth Cymru.

Rhan tri: Proffil achosion arolygu

Aethom ati i archwilio 112 achos o droseddwyr oedd wedi cael eu dedfrydu i orchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig neu a oedd ar drwydded o ddedfryd carchar, ac ymhle yr oedd hi'n hysbys eu bod wedi cyflawni cam-drin domestig. O'r achosion a aseswyd gennym:

- roedd y drosedd mynegai'n ymwneud â cham-drin domestig mewn 93 (83%)
- Roedd BBR yn un o ofynion y ddedfryd mewn 29 (26%)
- roedd y Cwmni Adsefydlu Cymunedol wedi categorio'r risg o niwed i oedolion hysbys fel risg canolig mewn 100 (89%)
- roedd y Cwmni Adsefydlu Cymunedol wedi categorio'r risg o niwed i blant fel risg canolig mewn 51 (46%).

Dyma oedd demograffeg y defnyddwyr gwasanaeth yn y 112 o achosion a aseswyd:

- Roedd 18 (16%) yn 18–25 oed, 47 (42%) yn 26–35 oed, 44 (39%) yn 36–55 oed a 3 (3%) yn 55+ oed
- Roedd 107 (96%) yn ddynion; 5 yn fenywod
- Roedd 90 (81%) yn wyn
- Roedd 58 (52%) wedi derbyn gorchymyn cymunedol, 26 (23%) wedi derbyn gorchymyn dedfryd ohiriedig a 28 (25%) wedi cael cyfnod ar drwydded
- Yn fwyaf cyffredin, roedd y troseddwyr wedi cyflawni trosedd ymosod (66), stelcio ac aflonyddu (14), trosedd yn erbyn y drefn gyhoeddus (12) neu niwed troseddol (11).

DS: Drwy gydol yr adroddiad hwn mae'r holl enwau y cyfeirir atynt yn yr esiamplau ymarfer wedi cael eu haddasu i ddiogelu hunaniaeth yr unigolyn.